# Canol Tref Caerfyrddin

## Y Prif Gynllun Adfer

Paratowyd ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin

Hydref 2021



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Mae'r holl fapiau yn y ddogfen hon:

- Wedi'u hailgynhyrchu o'r Arolwg Ordnans gyda chaniatâd rheolwr hawlfraint Llyfrfa Ei Mawrhydi
- © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2020 Arolwg Ordnans 100023377
- Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad/achos sifil.

Diwygiwyd 09-C - 26/10/2021

Diwygiwyd 08 - 20/09/2021

Diwygiwyd 07 - 20/08/2021

Diwygiwyd 06 - 09/07/2021

Diwygiwyd 05- 10/06/2021

Diwygiwyd 04 – 19/05/2021

Rhifyn drafft wedi'i ddiwygio 03 - 18/03/2021

# Tabl cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Diben a chyd-destun | 4 |
| 2 | Effeithiau COVID-19 | 5 |
| 3 | Materion a chyfleoedd allweddol ar gyfer canol y dref | 7 |
| 4 | Y Prif Gynllun Adfer | 16 |
| | • Strategaeth Lleoliad | 18 |
| | • Strategaeth Eiddo | 32 |
| | • Strategaeth Cymorth Busnes | 36 |
| | • Strategaeth Rheoli Lle | 38 |
| | • Dull cyflwyno | 40 |

# 1 Diben a chyd-destun

Mae'r prif gynllun adfer hwn wedi'i gomisiynu ar gyfer canol tref Caerfyrddin gan Gyngor Sir Caerfyrddin mewn ymateb i effeithiau pandemig COVID-19. Mae'r prif gynllun yn adolygu'r gweithgarwch adfywio presennol ac yn darparu ffocws newydd ar y blaenoriaethau a'r strategaeth ar gyfer adferiad a thwf yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd, mae effeithiau hirdymor argyfwng COVID-19 yn ansicr iawn, sy'n ei gwneud hi'n anodd creu darlun clir o'r dyfodol. Wrth i ni reoli ac addasu i gyd-fynd ag effeithiau'r pandemig, mae angen i ni ailfeddwl am siâp a diben canol y dref a sut i ymateb yn gadarnhaol i newidiadau tymor hwy.

Paratowyd y prif gynllun adfer hwn gyda chyfraniadau gan fusnesau a rhanddeiliaid lleol i helpu i lywio'r camau gweithredu cyntaf er mwyn cefnogi'r gwaith o adfer canol y dref ac i ddarparu'r fframwaith i helpu i ail-ddychmygu adfywiad a thwf yn y tymor hwy. Ar ben hynny, mewn cyfnod lle mae Sir Gaerfyrddin yn gyffredinol yn dioddef o effeithiau'r pandemig, mae'r prif gynllun adfer yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu a fydd yn cefnogi adferiad economaidd ledled Sir Gaerfyrddin[1].

[1] Cynllun Adfer a Chyflawni Economaidd Sir Gaerfyrddin, Cyngor Sir Caerfyrddin 2021

## Proffil canol tref Caerfyrddin

- Mae gan Gaerfyrddin ganol tref aml-swyddogaethol a hanesyddol sy'n gwasanaethu rôl ranbarthol bwysig ar gyfer dalgylch gwledig eang yng ngorllewin Cymru, wedi'i angori gan swyddogaeth manwerthu, hamdden a lletygarwch, cyflogaeth a gweinyddol nad ydynt yn hanfodol fel tref y sir.
- Mae canol y dref yn cefnogi cymysgedd cyfunol o gynrychiolaeth gan fanwerthwyr cenedlaethol a busnesau annibynnol, wedi'u gwasgaru ar draws ardal siopa gymharol fawr gyda dwy ganolfan siopa; Maes Myrddin a Chanolfan Siopa Rhodfa Santes Catrin.
- Gellir cymharu canol y dref (heb gynnwys bwyd) gydag angorau manwerthu allweddol, gan gynnwys Debenhams (yn cau) a Marks & Spencer ynghyd â chynnig hamdden masnachol (sinema Vue) a gweithredwyr bwyd a diod cenedlaethol sy'n canolbwyntio ar ganolfan siopa Rhodfa Santes Catrin.
- Mae nifer o ddenwyr adloniant, celfyddydau, diwylliant a theatr yng nghanol y dref sy'n cyfrannu at apêl y lleoliad.
- Mae'n ardal ganolog hanesyddol a nodweddiadol wedi'i chanolbwyntio o gwmpas Maes Nott, y Clos Mawr a'r castell, ynghyd ag ardaloedd busnes annibynnol traddodiadol yn Heol y Brenin a Heol Awst sy'n cael eu hategu gan ganolfannau siopa mwy modern.
- Mae marchnad dan do sefydledig ynghyd â marchnad awyr agored (a gynhelir ddwywaith yr wythnos).
- Mae'n ganol tref sy'n elwa o ymweliadau a gwariant gan dwristiaid a gweithwyr, ochr yn ochr â siopwyr traddodiadol yn y dalgylch, wedi'i nodweddu gan broffil siopwr cymharol gyfoethog a lefelau ffyniant lleol.
- Mae'r dref yn canolbwyntio ar drawsnewid parhaus, gyda phartneriaethau aeddfed ar waith wedi'i arwain gan flaenoriaethau prif gynllun canol y dref, fforwm adfywio'r dref a'i his-grwpiau, Ardal Gwella Busnes Caerfyrddin a phrosiectau ymroddedig wedi'u cyllido gan y Cyngor Sir ac Ewrop.

# 2 Effeithiau COVID-19

Mae effeithiau COVID-19 yn enfawr, yn ddigynsail ac yn parhau i gymylu'r rhagolygon economaidd. Mae'r effeithiau ar ganol y dref wedi cael eu gyrru gan sawl sioc rhyng-gysylltiedig gan gynnwys cau gorfodol, cadw pellter cymdeithasol, cynnydd mewn siopa ar-lein a newidiadau strwythurol i fanwerthwyr cadwyn cenedlaethol.

Er bod effeithiau wedi bod yn negyddol i raddau helaeth, mae rhai newidiadau cadarnhaol hefyd wedi dod i'r amlwg, yn cynnwys rhwydweithiau cymunedol cryfach, cymorth ar gyfer busnesau lleol a 'siopa'n lleol'. Mae hefyd wedi cefnogi twf mewn arloesedd busnesau, arallgyfeirio ac wedi creu cyfleoedd busnes newydd.

Nododd Asesiad Effaith Economaidd COVID-19 ar ganol tref Caerfyrddin[2] yr effeithiau uniongyrchol a rhai effeithiau hirdymor a allai siapio'r prif gynllun hwn.




- £1.3 miliwn - amcangyfrif o wariant wythnosol ar fanwerthu, gwasanaethau, hamdden a lletygarwch nad yw'n hanfodol a gollwyd yn ystod cyfnodau'r cyfyngiadau symud. Mae'r sectorau hyn a gafodd eu heffeithio yn cael eu cynrychioli'n dda yng nghanol tref Caerfyrddin.



- Gostyngiad o 80% yn nifer yr ymwelwyr ar ei lefel isaf (Ebrill 2020) o'i gymharu â blwyddyn ynghynt. Hyd yn oed yn ystod cyfnod llacio'r cyfyngiadau symud yn ystod yr haf, arhosodd nifer yr ymwelwyr wythnosol dros Awst 2020 oddeutu 55-60% o'r flwyddyn flaenorol. O'i gymharu â phrif drefi eraill y sir, mae canol y dref wedi dioddef cwymp mawr yn nifer yr ymwelwyr, sy'n adlewyrchu ei rôl fel cyrchfan ranbarthol gyda dalgylch eang, apêl i dwristiaid a gweithwyr canol tref, yr effeithiwyd arnynt oll gan y cyfyngiadau symud a theithio.




- 17% - cyfradd yr adeiladau gwag sy'n adlewyrchu effeithiau siopau yn cau, yn enwedig ymhlith y siopau cadwyn cenedlaethol, y mae rhai ohonynt yn cynrychioli unedau mawr. Rhagwelir caeadau pellach yn 2021.



- Mae'r effeithiau ar economi ehangach Caerfyrddin wedi'u modelu ac maent yn dangos llai o gynhyrchiant, colli swyddi, a disgwylir i nifer sylweddol o fusnesau llety a gwasanaethau bwyd gau. Mae cyfoeth a fesurir yn nhermau incwm cyfartalog aelwydydd yn is na'r cyfartaledd.

[2] Canol Tref Caerfyrddin - Asesiad Effaith Economaidd COVID-19, Rhagfyr 2020, Owen Davies Consulting Ltd.

## Ffactorau a fydd yn sbarduno newid yn y dyfodol

Mae’n debyg y bydd bywyd ar ôl COVID-19 yn wahanol i’r hen drefn, gyda’r pandemig yn cyflymu llawer o dueddiadau strwythurol a oedd yn bodoli a phobl yn ffurfio arferion newydd. Mae hyn yn golygu bod pobl yn annhebygol o ddychwelyd yn llwyr i’r hen ffordd o fyw. Fodd bynnag, mae ansicrwydd ynghylch pa mor barhaol fydd y newidiadau hyn pan na fydd COVID-19 yn fygythiad mwyach, a gall pobl ddychwelyd at batrymau gwaith arferol a chymdeithasu arferol. Mae’n debyg y bydd ffactorau a fydd yn sbarduno newid yn y dyfodol (Ffigur 1) yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol a negyddol fel ei gilydd i’r busnesau a’r bobl sy’n defnyddio canol y dref.

| | Negyddol | Cadarnhaol |
|---|---|---|
| Manwerthwyr cadwyn cenedlaethol | **Colli ymwelwyr wrth i frandiau a oedd yn arfer denu nifer o gwsmeriaid orfod ailstrwythuro/cau** | Cyfle i gwmnïau annibynnol uchelgeisiol gael sylw |
| Swyddfeydd | **Mae patrwm newydd o weithio gartref yn lleihau nifer y gweithwyr swyddfa sy'n cymudo i'r dref a pha mor aml maent yn teithio** | Mae gweithio gartref a llai o gymudo yn cynyddu'r cyfle i wario mwy yn lleol |
| | **Y galw am swyddfeydd yn dirywio** | Cyfle am hybiau swyddfa hyblyg a mannau gwaith a rennir |
| Siopa ar-lein | **Twf parhaus mewn siopa ar-lein yn arwain at golli nifer fawr o ymwelwyr yn yr hirdymor** | Busnesau cig a gwaed yn datblygu masnach ar-lein i gyrraedd marchnadoedd a chwsmeriaid newydd |
| | **Manwerthu - angen lleoedd gwerthu gwahanol, llai o faint i ganiatáu mwy o le i storio a chreu swyddfa yn y cefn** | Busnesau sy'n cynnig gwasanaethau manwerthu personol o safon, gyda phrofiad arbenigol yn debygol o dyfu. |
| Eiddo | **Llai o alw am le manwerthu a swyddfeydd yn arwain at ddirywiad yng ngwerth eiddo/incwm i berchnogion/buddsoddwyr** | Rhenti is ‘deniadol’ a thelerau mwy hyblyg yn annog unigolion i ddechrau busnesau annibynnol ac yn gyfle i fusnesau sydd eisoes yn bodoli dyfu |
| | **Llai o bosibilrwydd a pharodrwydd i addasu eiddo a buddsoddi** | Landlordiaid/perchenogion eiddo yn cael eu cymell i weithio mewn partneriaeth â'r sector cyhoeddus a chwarae rhan weithredol mewn adfywio |
| Lle ac atyniad | **Defnyddwyr pwyllog a phryderon iechyd parhaus yn denu cwsmeriaid i leoliadau a ystyrir yn fwy diogel e.e. parciau manwerthu** | Cyfle i ail-lunio mannau cyhoeddus a gwella amgylcheddau cerddwyr |
| | **Colli cymeriad manwerthu a goruchafiaeth siopa** | Lle ar gyfer defnyddiau newydd a dwysach - preswyl, hamdden, iechyd, diwylliant. Twf cwsmeriaid newydd - e.e., cyfarfodydd i bobl sy’n gweithio gartref/lletygarwch amser cinio |
| | **Colli busnesau lletygarwch, diwylliant, hamdden sy’n cynnig ‘profiadau’ ond sydd hefyd wedi cael eu taro galetaf** | Mwy o bwyslais ar brofiad a ‘lleoliad’ |

Ffigur 1: Ffactorau sy’n sbarduno newid

# 3 Materion a chyfleoedd allweddol ar gyfer canol y dref

## Pobl

Mae deall nodweddion y bobl sy'n byw gerllaw ac sydd o bosibl yn defnyddio canol y dref ac yn gweithio yno yn elfen sylfaenol o'r prif gynllun. Unwaith y bydd y cyfyngiadau sy'n ymwneud â chadw pellter cymdeithasol yn cael eu llacio, bydd yn haws gweld sut mae ymddygiad a hoffterau pobl wedi newid, a bydd hyn yn penderfynu sut mae busnesau, atyniadau hamdden ac diwylliannol yn addasu o ganlyniad. Bydd yn bwysig i'r prif gynllun ddiogelu'r busnesau a'r gweithgareddau y mae'r cwsmeriaid presennol eu heisiau, yn ogystal â denu defnyddwyr newydd trwy ddeall pwy ydyn nhw a beth yw eu dymuniadau.

## Proffil cymunedol

Mae data CACI[3] yn darparu safle data 2020 cyn y pandemig ac yn cadarnhau proffil siopwr cymharol gyfoethog o'r rhai sy'n defnyddio canol tref Caerfyrddin (Ffigur 2).

Wrth gyfeirio at gategorïau proffil grŵp Acorn o 'Gymunedau Cyfforddus', roedd y data yn cadarnhau bod ymwelwyr canol tref, yn enwedig yr is-gategori dominyddol o 'gymunedau cefn gwlad', yn cyfrif am oddeutu hanner holl bobl sy'n defnyddio canol y dref - sy'n rhannol yn adlewyrchiad o'r gefnwlad wledig eang sydd yng Nghaerfyrddin. Mae hefyd lefel sylfaenol o gyfoeth yn gysylltiedig ag 'arian aeddfed', sy'n golygu bod dros 70% o ddefnyddwyr canol tref yn cael eu hystyried yn uwch na'r cyfartaledd o ran cyfoeth, gyda lefelau gwariant cysylltiedig ond yr un disgwyliadau ar gyfer safon ac amrywiaeth i fodloni gofynion. Mewn cyferbyniad, nodir bod tua 23% o ddefnyddwyr canol tref 'dan bwysau ariannol', a bod yr is-grŵp y mae'r mwyafrif yn perthyn iddo yn cynnwys pobl 'gymedrol eu modd' (teuluoedd iau mewn cartrefi llai ag incwm is na'r cyfartaledd) sy'n adlewyrchu pwysigrwydd gwerth a chyfleustra fel ystyriaeth allweddol.

[3]Adroddiad Ôl Troed Manwerthu CACI - Caerfyrddin 2020

| Categori | % sy'n defnyddio canol y dref |
|---|---|
| Cymunedau cyfforddus | 58% |
| Cyflawnwyr cyfoethog | 14% |
| Dan bwysau ariannol | 23% |


Ffigur 2 - Segmentiad defnyddwyr Acorn. Ffynhonnell CACI 2020

## Gwariant

Wrth asesu patrymau gwariant, mae CACI yn cadarnhau rôl, swyddogaeth ac atyniad canol tref Caerfyrddin fel canol tref rhanbarthol pwysig gyda dros 77% (£74 miliwn) o'r gwariant cymharol cymhariaeth (heblaw bwyd) yn dod o'i ddalgylch siopa. Yn ogystal â hyn, amcangyfrifir bod gweithwyr lleol yn cyfrannu £5 miliwn (5.2%) i'r gwariant, tra bod cyfraniad twristiaid/ymwelwyr i ganol y dref yn sylweddol - gan gyfrif am £22 miliwn (17.7%) o'r gwariant.

Gyda'i gilydd, mae'r amcangyfrifon gwariant hyn yn cadarnhau apêl aml-swyddogaeth canol y dref i amrywiaeth o ddefnyddwyr gyda bron i chwarter y gwariant yn deillio o ymwelwyr, ac i raddau llai, gweithwyr lleol.

Mae dadansoddiad o ddata gwariant wythnosol cyfartalog gan CACI (Ffigur 3) yn cydnabod y gwariant hanfodol ar nwyddau cyfleus (bwyd) ond hefyd lefel gwariant canol y dref ar ddillad/esgidiau, a bwyta ac yfed. Mae hyn yn adlewyrchu lefel y dillad ac esgidiau sydd ar gael yng nghanol y dref, wedi'i rannu ar draws siopau cadwyn cenedlaethol a busnesau annibynnol, tra bod y gwariant ar gyfleusterau bwyd a diod lleol yn nodi statws y cyrchfan i lawer o ddefnyddwyr.




## Cymudo

Cyn COVID-19, roedd tua 1,000 o bobl yn cymudo bob dydd allan o Gaerfyrddin a'r prif gyrchfannau oedd Abertawe, Llanelli, Cross Hands a Chaerdydd. Mewn cyferbyniad, fel tref sirol a lleoliad rhanbarthol allweddol i lawer o sefydliadau'r sector cyhoeddus, mae Caerfyrddin yn denu mwy o gymudwyr na'r rheini nad ydynt yn gymudwyr, yn enwedig o Lanelli, ac ardaloedd Cross Hands, Cydweli a Rhydaman. Mae'n debyg y bydd gan y newidiadau i dueddiadau cymudo yn y dyfodol o ganlyniad i batrymau gwaith a gofynion lleoedd gwaith (gan gynnwys gweithle hyblyg ac arloesol) oblygiadau i ganol y dref.

Ffigur 3: Gwariant cartref wythnosol ar gyfartaledd
Ffynhonnell: CACI 2020 - Mae llinell doriad yn cynrychioli'r cyfartaledd ar gyfer trefi sydd wedi'u lleoli yn Ninas-ranbarth Bae Abertawe

## Rhagolwg

Er bod canol tref Caerfyrddin wedi profi i fod yn lleoliad poblogaidd a llwyddiannus, cydnabyddir bod canol y dref wedi bod yn fwy agored i effeithiau COVID-19 o'i gymharu â llawer o ganol trefi eraill am amryw resymau. Mae hyn yn cynnwys ei gyfansoddiad craidd a'r hyn mae'n ei gynnig, sef defnyddiau nad ydynt yn hanfodol fel hamdden a lletygarwch yn bennaf, yn ogystal â'i statws fel tref sirol a chyrchfan siopa/hamddena rhanbarthol i gefnwlad eang. Mae effeithiau uniongyrchol y cyfyngiadau symud, caeadau dros dro, cyfyngiadau teithio ar ymwelwyr a gweithio yn y cartref gan weithwyr a oedd gynt yn gweithio yng nghanol y dref, wedi cyfrannu gyda'i gilydd at gwymp yn nifer yr ymwelwyr a lleihau'r gwariant yng nghanol y dref.

Mae hyn yn parhau i fod yn her ond mae gan y dref gymwysterau sylfaenol a chadarnhaol, sy'n cynnig diwylliant a cyrchfan treftadaeth wedi'i osod yng nghyd-destun ei sylfaen gref o gwmnïau annibynnol a siopau cadwyn cenedlaethol ynghyd â ffocws ar gyfer adloniant, y celfyddydau, lletygarwch, gwaith ac addysg. At hynny, mae ardal leol a phroffil economaidd-gymdeithasol defnyddwyr presennol canol y dref yn dynodi poblogaeth gymharol gefnog, sy'n cynnig sylfaen dda ar gyfer cefnogi adferiad o safbwynt adfywio a buddsoddi.

Mae'r dref wedi'i nodi fel ardal Trawsnewid[4] lle mae ffocws ar fuddsoddiad, yn enwedig yng ngorllewin Caerfyrddin yn sgil cyflwyno canolfan ddigidol a chreadigol Yr Egin ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mae hyn yn cynnig potensial i ehangu'r sector creadigol a digidol yng nghanol y dref, a allai fod yn gysylltiedig â phresenoldeb uwch o fyfyrwyr o ystyried y nifer sylweddol o fyfyrwyr sydd yn y brifysgol, ac yng Ngholeg Sir Gâr.

Mae canol y dref yn elfen annatod o'r 'Trawsnewid' hwn, gyda phrif gynllun adfywio canol y dref[5] yn amlinellu blaenoriaethau allweddol ar gyfer yr ardal ganolog. Mae'r prif gynllun adfer hwn yn ategu'r fframwaith presennol a gefnogir gan waith parhaus is-grwpiau'r Fforwm Adfywio.


Ar lefel genedlaethol, mae Caerfyrddin wedi'i nodi fel Ardal Twf Rhanbarthol yng nghynllun Cymru'r Dyfodol[6], sy'n ceisio tyfu, datblygu a chynnig amrywiaeth o wasanaethau masnachol a chyhoeddus a fydd yn ganolbwynt i'w hardaloedd. Ynghyd â'r egwyddor o 'ganol trefi yn gyntaf', mae gan hyn y potensial i gryfhau buddsoddiad a chyfleusterau ymhellach yng nghanol tref Caerfyrddin.

[4] Cynllun adfywio strategol ar gyfer Sir Gaerfyrddin rhwng 2015-2030
- Trawsnewidiadau, Cyngor Sir Caerfyrddin
[5] Prif Gynllun Adfywio Tref Caerfyrddin 2014 - 2030, Capita 2014
[6] Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040, Llywodraeth Cymru 2021

## Busnes

Sbardun allweddol y prif gynllun adfer yw'r angen i ddiogelu busnesau lleol hyfyw, yn enwedig y rhai sy'n cyfrannu at safon, profiad ac amrywiaeth y defnyddiau.  Mae'r prif gynllun hefyd yn cydnabod yr angen i gefnogi busnesau sy'n gallu ehangu ac ymateb i farchnadoedd newydd, a thargedu/denu cwsmeriaid newydd, p'un a ydyn nhw'n fentrau newydd neu'n fusnesau sefydledig sy'n awyddus i sicrhau twf.

Mae data CACI ar gyfer canol tref Caerfyrddin (Ffigur 4) yn dangos darlun pan fydd gor-gynrychiolaeth o gynigion iechyd a harddwch, manwerthu 'arall' a bwyta/yfed. Nid yw hyn yn syndod o ystyried graddfa, amrywiaeth a maint y cynnig manwerthu. Yn yr un modd, mae canolbwyntio ar fanwerthu nad yw'n hanfodol yn cadarnhau lefel isel o ddarpariaeth cyfleustra (bwyd). Bydd natur newidiol y sector manwerthu yn debygol o gael effaith bellach ar gyfansoddiad canol y dref er bod Caerfyrddin yn parhau i gadw ystod, dewis a chynnig iach o fanwerthwyr dillad ac esgidiau, ac mae'n ymddangos bod y symudiad tuag at wasanaethau mwy personol a phrofiadol fel hamdden, iechyd a harddwch, a bwyta ac yfed, wedi hen ennill ei blwyf wrth gefnogi'r tueddiadau hyn.




Ffigur 4: Cyfansoddiad canol y dref Ffynhonnell: CACI 2020 - Mae llinell doriad yn cynrychioli cyfartaledd ar gyfer trefi sydd yn Ninas-ranbarth Bae Abertawe

## Amrywiaeth ac arbenigedd

Mae canol y dref yn darparu cymysgedd cyfun gynhwysfawr o ddefnyddiau a gwasanaethau, llawer ohonynt gan fusnesau annibynnol o safon uchel (Ffigur 5) sy'n cyfrannu at ei atyniad a'i apêl fel cyrchfan i ymwelwyr. Mae'r amrywiaeth a'r dewis hwn yn ymestyn ar draws nifer o ddefnyddiau, rhai yn arbenigol o ran eu natur, ac wedi datblygu sylfaen o gwsmeriaid ffyddlon. Mae'r cymysgedd hwn o gwmnïau annibynnol yn sicrhau profiad siopa, hamdden a lletygarwch unigryw, gyda rhai rhannau o ganol y dref a nodweddir fel 'chwarteri annibynnol' fel Heol y Brenin, sy'n gwahaniaethu oddi wrth rannau eraill o ganol y dref. Yn ogystal â hyn, mae union natur busnesau annibynnol yn sicrhau amrywiaeth o gynnig cynnyrch; profiad y cwsmer, cyngor a gwasanaeth, a thu blaen siop ac arddangosfa.

Mae maint y gymuned fusnes annibynnol yng nghanol y dref yn darparu cyfleoedd i ddatblygu a chryfhau cynrychiolaeth ledled y dref, yn enwedig o ystyried y gallu i reoli, ymateb a gweithredu newid yn haws. Mae tystiolaeth dda o gwmnïau manwerthu annibynnol yn ehangu yng nghanol y dref, gan gynnwys manteisio ar unedau gwag sy'n fwy o ran maint a ddefnyddir yn ffurfiol gan fusnesau cadwyn cenedlaethol. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad cadarnhaol gan ddeiliaid i dyfu ac ailffocysu eu presenoldeb a'u safle ochr yn ochr â hyblygrwydd a chefnogaeth ar ran landlordiaid i annog a hyrwyddo cyfleoedd i'r busnesau a wynebodd rwystrau wrth ystyried symud i adeiladau mwy o faint.

## Diwydiannau Creadigol

Mae'r buddsoddiad sylweddol yn Yr Egin yn cynrychioli cyfle strategol i dyfu rôl Caerfyrddin fel canolbwynt i'r diwydiannau creadigol wedi'i seilio ar y cyfryngau Cymraeg. Er mwyn manteisio ar y cyfleuster unigryw hwn, mae'r prif gynllun adfer hwn yn cydnabod y potensial i archwilio a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer y diwydiannau creadigol a digidol yng nghanol y dref, gan gynnwys ei botensial i gysylltu gweithgareddau â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mae gan hyn oblygiadau ar gyfer cefnogi gweithgareddau newydd a defnyddio'r adeiladau mewn ffordd wahanol (o bosib yn rhoi ail bwrpas i eiddo gwag), ochr yn ochr â denu ymwelwyr newydd ac yn bwysicach, helpu i hyrwyddo cynnig creadigol Caerfyrddin ymhellach.




Ffigur 5: Enghreifftiau o fusnesau annibynnol yng nghanol tref Caerfyrddin

## Eiddo busnes

Gyda'r galw yn lleihau a'r dirywiad cyffredinol mewn manwerthu (gan gynnwys siopau mwy o faint), mae cyfleoedd ar gael i roi ail bwrpas i lawer iawn o adeiladau yng nghanol y dref a'u haddasu. Un canlyniad i'r newid strwythurol oedd y twf yn nifer yr adeiladau gwag, fel y gwelir yng nghanol tref Caerfyrddin, gyda materion penodol codi yn sgil cau siopau cadwyn cenedlaethol a thrwy hynny, yn gadael unedau mawr yn wag, sy'n cyflwyno heriau mwy o faint o ran sicrhau rhagolygon realistig ar gyfer ail-feddiannu. Mae adeiladau gwag i'w gweld ledled canol y dref, ond mae casgliad o unedau gwag yn Heol Goch a Ffordd Cambria, ac mae perchnogion Canolfan Siopa Rhodfa Santes Catrin a Maes Myrddin wrthi'n ceisio mynd i'r afael â gwagleoedd ar eu safleoedd nhw, sy'n cynnwys cau Debenhams, sef yr uned fwyaf a'r un oedd yn denu nifer sylweddol o ymwelwyr i ganol y dref.

Y mater allweddol fydd canolbwyntio y tu hwnt i ddefnydd manwerthu a sicrhau nad yw swyddi'n diflannu o ganol y dref. Bydd angen denu deiliaid newydd a rhoi sylw a blaenoriaeth i nodi defnyddiau newydd a all gynyddu nifer yr ymwelwyr a gweithgarwch fel preswyl, hamdden, lleoedd gwaith, addysg, gwasanaethau cymunedol a cyhoeddus. O ystyried maint presenoldeb y sector cyhoeddus yng Nghaerfyrddin, mae cyfleoedd ar gael i'r Cyngor Sir a'i bartneriaid, gan gynnwys y brifysgol a'r coleg, archwilio'r posibilrwydd o ddod â gwasanaethau a chyfleusterau i ganol y dref a fyddai'n gwneud defnydd o'r adeiladau gwag. Bydd hyn yn berthnasol i'r unedau mwyaf.

Yn ogystal â hyn, er mwyn sicrhau bod y gymuned o fusnesau annibynnol a busnesau bach yn gallu tyfu a ffynnu yn lleol, bydd yn bwysig sicrhau bod eiddo addas ar gael, a all ddarparu ar gyfer anghenion modern a hyblyg ond sydd hefyd yn sicrhau hyblygrwydd, arloesedd a fforddiadwyedd o ran telerau/amodau'r brydles a rhentu. Bydd hyn yn helpu i gefnogi busnesau manteisgar sy'n barod i fuddsoddi tra'n ymateb i newidiadau yn nhueddiadau'r farchnad a thueddiadau masnachol. Lle bo angen rhoi ail bwrpas ac addasu busnesau, bydd yn bwysig ystyried  pa mor ymarferol yw hyn i berchnogion eiddo/buddsoddwyr.

Bydd y Gorchymyn Datblygu Lleol arfaethedig ar gyfer canol tref Caerfyrddin yn offeryn polisi hanfodol i hyrwyddo hyblygrwydd defnyddiau y gellir eu cyflawni yn gymharol gyflym. Os caiff y Gorchymyn Datblygu Lleol ei gymeradwyo yn 2021, bydd yn darparu caniatâd cynllunio cyffredinol ar gyfer ystod ehangach o ddefnyddiau ar lefel llawr daear a llawr uchaf, gan ddileu'r angen am geisiadau cynllunio a thrwy hynny yn symleiddio'r system gynllunio, gan ostwng y rhwystrau i ystod o ddefnyddiau amgen a buddsoddiad.

## Cyfryngau digidol a chymdeithasol

Er mwyn tyfu busnesau bach a phontio i weithrediadau ar raddfa ganolig a allai fod yn fwy o faint, mae angen gwell cynhyrchiant a dulliau gwell i gyrraedd y farchnad. Mae'n debygol y bydd tyfu sylfaen cwsmeriaid ar-lein effeithiol yn rhan bwysig o dyfu busnesau yn y dyfodol.

Mae ein hadolygiad o iechyd digidol Caerfyrddin yn awgrymu nad oes digon yn cael ei wneud ar-lein gan y mwyafrif o fusnesau lleol i wneud y gorau o'u cyfathrebu - er bod rhai busnesau lleol a grwpiau cymunedol rhagweithiol ac Ardal Gwella Busnes Caerfyrddin yn ceisio cynyddu pwysigrwydd hanfodol bod yn oll bresennol ar y cyfryngau digidol a chymdeithasol i helpu i godi proffil busnesau a phroffidioldeb.

| |
|---|
| Mae 66% o ddefnyddwyr y DU yn treulio tair awr y dydd ar y cyfryngau cymdeithasol |
| Mae 52% o ddefnyddwyr y DU yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ymchwilio i bryniannau |
| Dim ond 30% o fusnesau canol tref Caerfyrddin sy'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol |

Mae cyfle mawr i wella presenoldeb ar-lein busnesau canol y dref, ac mae data yn awgrymu nad yw'r gymuned fusnesau yn gyffredinol yn ymgysylltu drwy'r cyfryngau cymdeithasol, gyda llai na thraean ohonynt yn cymryd rhan weithredol.

O ystyried pwysigrwydd hanfodol presenoldeb ar-lein ar gyfer busnes modern, gellid cryfhau hyn yn sylweddol i sbarduno twf busnes lleol ac annibynnol ymhellach.

## Lle

Mae'r Prif Gynllun Adfer wedi elwa o 'Brif Gynllun Adfywio Tref Caerfyrddin', sef ymarfer llunio prif gynllun cynharach a gynhaliwyd yn 2014. Mae'r astudiaeth hon yn gwerthuso'r amodau trefol sy'n nodweddu canol y dref ac yn nodi nifer o brosiectau posibl.  Nid yw'r Prif Gynllun Adfer yn ceisio ailadrodd y gwaith hwn, ond yn hytrach ei adolygu ochr yn ochr â phrosiectau parhaus eraill a gynlluniwyd, i nodi ymyriadau a strategaethau â blaenoriaeth i gefnogi goroesiad ac adferiad canol y dref yn enwedig mewn ymateb i'r pandemig a thueddiadau nodedig yn y sector manwerthu. Disgrifir y 'Prosiectau Lle' hyn yn fanylach yn yr adrannau canlynol.

O ran ymdeimlad o hunaniaeth y dref, mae Caerfyrddin yn honni mai hi yw'r dref hynaf yng Nghymru ac mae tystiolaeth o'i hanes cyfoethog yn sicr yn nodwedd ddiffiniol allweddol yng nghanol y dref. Diffinnir ei chymeriad i raddau helaeth gan batrwm stryd canoloesol a nifer o adeiladau rhestredig, wedi'u crynhoi'n arbennig ar hyd Heol y Brenin a Maes Nott, gan gynnwys y Neuadd Sirol ac Eglwys San Pedr sy'n adeiladau rhestredig Gradd I a'r Castell, sy'n adeilad rhestredig Gradd I ac yn Heneb Gofrestredig.

Mae gan strwythur canol y dref batrwm rheiddiol amlwg gyda llwybrau allweddol yn cydgyfarfod ar gyffordd Heol Las, Heol Goch a'r Clos Mawr. O'r fan hon, mae'r cymeriad hanesyddol yn parhau i'r gorllewin ar hyd Heol Awst ac i'r dwyrain ar hyd Heol y Brenin, sy'n cysylltu â Maes Nott a'r Clos Mawr ac Eglwys San Pedr. Fodd bynnag, i'r gogledd o'r llwybrau hyn, mae'r prif ffryntiad manwerthu sy'n leinio Heol Goch sy'n cysylltu â Chanolfan Santes Catrin yn cael ei ddiffinio gan unedau manwerthu mawr, tir cyhoeddus a phensaernïaeth fodern, – sy'n gyferbyniad llwyr i'r ardaloedd treftadaeth cyfagos.


Mae'r patrwm rheiddiol hwn lle ceir newid mewn cyfeiriad a threfniant afreolaidd yn creu rhwydwaith nodweddiadol o strydoedd, mannau a lonydd, gan roi'r ymdeimlad bod canol y dref yn eang. Rhwng y llwybrau rheiddiol hyn, mae'r treflun yn aml yn dameidiog ac wedi'i ddominyddu gan iardiau gwasanaeth, meysydd parcio a chefnau adeiladau gwag.

Yn gyffredinol, mae ansawdd y tir cyhoeddus yn ddiffygiol ac nid yw'n ategu nac yn cwrdd â'r safonau a osodir gan ei adeiladau hanesyddol deniadol. Mae diffyg amlwg o fannau gwyrdd a choed hefyd. Er ei fod yn gymharol agos at afon Tywi, mae cysylltiad canol y dref â glan yr afon yn cael ei gyfaddawdu gan y newid mewn lefel, diffyg llwybrau uniongyrchol i gerddwyr, a ffordd brysur Ffordd y Cwrwg.


At ei gilydd, mae Caerfyrddin yn elwa o gyfoeth o asedau hanesyddol a diwylliannol, a lleoedd o ddiddordeb. Fodd bynnag, nid yw potensial yr asedau hyn yn cael ei wireddu ar hyn o bryd. Mae angen buddsoddiad i atgyfnerthu ymdeimlad o le y dref i helpu i greu lleoliad sy'n cefnogi busnesau, yn denu ymwelwyr newydd ac yn creu lle dymunol i fyw a threulio amser ynddo.











MAES PARCIO CANOLFAN SANTES CATRIN
HEOL Y SGUBOR
MAES PARCIO HEOL SAN PEDR
MAES PARCIO HEOL IOAN
HEOL Y GWYDDAU
Cyfle i graidd manwerthu addasu i gyd-destun cyfnewidiol ac adnewyddu ei dir cyhoeddus a'i weithgarwch ar y strydoedd
RHODFA'R FARCHNAD
MAES CAMBRIA
Cyfleoedd i wella llwybrau presennol a chreu lleoedd newydd
Cyfle i ddiffinio a dathlu 'Chwarter Diwylliannol' wedi'i ganoli ar Heol y Brenin
HEOL Y BRENIN
HEOL GOCH
HEOL Y CAPEL
HEOL SPILMAN
HEOL AWST
DARK GATE
Y CLOS MAWR
HEOL LAS
MAES NOTT
MAES MYRDDIN
GORSAF FYSIAU
Hanfodol i wella'r man hanesyddol hwn fel 'calon' canol y dref
Dylid cryfhau'r cysylltiad a'r berthynas rhwng canol y dref a glan yr afon
A4242
RIVER TOWY

## Crynodeb o'r heriau a chyfleoedd allweddol

**Heriau**

- Bregusrwydd a bygythiad i'r rôl siopa ranbarthol, gan gynnwys colli cwmnïau manwerthu mawr
- Mae'r arfer o weithio o bell wedi arwain at ostyngiad amlwg yn nifer y gweithwyr swyddfa sy'n defnyddio canol y dref, yn enwedig o ystyried maint y sector cyhoeddus yng Nghaerfyrddin
- Twf mewn eiddo gwag, llawer ohonynt yn gymharol fawr gyda'r potensial i wneud niwed mawr i ganol y dref
- Cynnal atyniad ac apêl ddigon cryf i ganol y dref ar gyfer dalgylch eang a chymharol gyfoethog o'i gymharu â chanol trefi cyfagos eraill
- Llai o alw am fanwerthu a rhagolygon realistig ar gyfer sicrhau defnydd o ystyried gorgyflenwad o unedau
- Lefelau isel o ymgysylltiad o ran gwneud busnesau yn ddigidol
- Diogelu a chadw'r angorau manwerthu a'r atyniadau hamdden sy'n weddill
- Perygl llifogydd ar ymyl glan yr afon yng nghanol y dref

**Cyfleoedd**

- Y gymysgedd o fanwerthu, hamdden a chyflogaeth, wedi'i gymysgu â diwylliant a threftadaeth sydd eisoes yn darparu cyrchfan wedi'i arwain gan brofiad
- Sylfaen gref o gwmnïau annibynnol diddorol ac arbenigol
- Adloniant, lletygarwch, celfyddydau, diwylliant a theatr bresennol gan gynnwys buddsoddiad parhaus
- Rhoi ail bwrpas i graidd canolog y dref er mwyn creu defnyddiau a gweithgareddau newydd, gan gynnwys lleoedd gwaith a phreswyl hyblyg
- Ehangu gwasanaethau a chyfleusterau'r sector cyhoeddus yng nghanol y dref
- Gofynion am westy newydd yn nhref Caerfyrddin
- Adeiladu ar y diwydiant creadigol a digidol yn Yr Egin i ddatblygu mwy o rôl i'r diwydiannau creadigol
- Ehangu'r marchnadoedd lleol (dan do a stryd) i arddangos y cynnyrch lleol
- Gwella lleoedd awyr agored i gefnogi twf mewn lletygarwch, mannau i gymdeithasu a llesiant
- Hyrwyddo ansawdd lle a gwella cysylltiadau trwy ganol y dref
- Canolbwyntio ar Lôn Jackson fel ffocws ar gyfer gweithgarwch adfywio

## Crynodeb o’r amcanion allweddol

Er mwyn gyrru’r cynllun adferiad a thwf ymlaen a darparu ffocws i’r strategaeth a’r cynllun cyflawni, nodwyd yr amcanion canlynol ar gyfer canol y dref:

- Diogelu, amddiffyn a chryfhau rôl ranbarthol canol tref Caerfyrddin fel cyrchfan ar gyfer manwerthu, hamdden, lletygarwch, diwylliant, cyflogaeth, addysg a phreswyl.
- Canolbwyntio ar weithgarwch yng nghraidd canolog y dref er mwyn osgoi colli’r prysurdeb, a chynyddu cyfleoedd ar gyfer mwy o gymysgedd o ddefnyddiau trwy ailddefnyddio a rhoi ail bwrpas i adeiladau gwag ac adeiladau sy’n cael eu tanddefnyddio mewn ardal sy’n destun newid sylweddol.
- Cryfhau cyfleusterau hamdden a lletygarwch canol y dref i wella’r economi gyda’r nos, sy’n tanberfformio ar hyn o bryd, a datblygu’r seilwaith twristiaeth sy’n darparu cynigion trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys y cyfle i gael gwesty newydd.
- Cefnogi ac annog busnesau bach a busnesau annibynnol i ddatblygu, tyfu ac ehangu yng nghanol y dref.
- Ehangu presenoldeb y sector cyhoeddus yng nghanol y dref, gan gynnwys cyfleoedd i gynnig darpariaeth gwasanaeth newydd (iechyd a llesiant, hamdden, hwb gwasanaethau/cyngor lleol, preswyl) a chydweithio â sefydliadau’r trydydd sector i gynhyrchu ‘angorau’ i gynyddu nifer yr ymwelwyr a defnyddio adeiladau gwag.
- Adeiladu ar y cyfleoedd i gael mwy o gysylltiadau rhwng y Brifysgol a chanol y dref, gan gynnwys y cwmpas i gynnal gweithgareddau addysgol a diwylliannol i ategu’r chwarter diwylliannol, ac yn benodol y potensial ar gyfer hwb creadigol a digidol sy’n gysylltiedig â’r Egin.
- Annog twf y farchnad awyr agored i gynnwys nifer fwy o stondinau, a’r potensial ar gyfer thema/steil newydd o farchnadoedd.
- Sicrhau gwelliannau i safon lleoedd awyr agored, yn enwedig Lôn Jackson, i ddarparu amgylchedd diogel, deniadol, atyniadol ac ysgogol yng nghanol y dref sy’n cefnogi’r sector lletygarwch a’r economi gyda’r nos.
- Gwella cysylltiadau cerddwyr a beicwyr ledled canol y dref, y mae llawer ohonynt o safon wael ar hyn o bryd.
- Tref glyfar gyda busnesau’n gwneud y defnydd gorau o ddeunyddiau digidol i ddatblygu eu cyrhaeddiad yn y farchnad, eu trosiant a nifer yr ymwelwyr.
- Mentrau sy’n sicrhau bod ystod o randdeiliaid yn cymryd rhan mewn sicrhau gwelliannau i ganol y dref.
- Annog datgarboneiddio trwy seilwaith carbon isel sy’n gallu dygymod â newid yn yr hinsawdd, ynni adnewyddadwy a datblygiadau cynaliadwy.
- Cymorth i ddefnyddio a hyrwyddo’r Gymraeg a’i diwylliant.

# 4 Y Prif Gynllun Adfer

Mae canol tref Caerfyrddin yn wynebu heriau a thrawsnewidiad parhaus wrth iddo addasu i newidiadau strwythurol ehangach ac effeithiau'r pandemig yn ei rôl ranbarthol fel canolbwynt ar gyfer manwerthu, hamdden a chyflogaeth.

Bydd angen dull hyblyg tuag at adferiad a thwf a fydd yn ceisio diogelu rôl y dref fel canolbwynt rhanbarthol ar gyfer cyflogaeth a siopa, sef dwy rôl yr effeithiwyd yn fawr arnynt gan y pandemig. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar y priodoleddau cadarnhaol sydd eisoes yn bodoli ochr yn ochr â'r angen i arallgyfeirio, ac mae'n cael ei yrru gan ffocws i gefnogi a meithrin busnesau lleol, hyrwyddo cymysgedd o ddefnyddiau ar gyfer amrywiaeth o bobl, a chryfhau ac adfywio canol y dref i fod yn lle mwy deniadol.

Mae'r strategaeth yn ceisio ehangu ac ymestyn yr ystod o ddefnyddiau y tu hwnt i'r rôl draddodiadol, wedi'i arwain gan y sector manwerthu a chyflogaeth, ond ar yr un pryd sicrhau bod angorau a'r atyniadau presennol yn cael eu diogelu. Mae'r newid a'r ailfwriadu hwn tuag at greu cyrchfan amlbwrpas yn rhoi gwir gyfle i ymateb i'r esblygiad mewn tueddiadau manwerthu, hamdden a lletygarwch modern ar gyfer busnesau presennol a newydd, ynghyd ag anogaeth i wneud defnyddiau newydd ohonynt, yn enwedig preswyl, lleoedd gwaith hyblyg, addysg, gweithgareddau diwylliannol a chymdeithasol/cymunedol. Mae diddordeb diweddar gan weithredwyr gwestai yng nghanol y dref wedi rhoi anogaeth y gellir sicrhau mwy o amrywiaeth ac y byddai'n helpu i dyfu economi gyda'r nos sy'n tanberfformio yn gyffredinol.

Mae cyfraniad y sector cyhoeddus i ddyfodol canol y dref, o ystyried ei rôl weinyddol hirsefydlog, hefyd yn debygol o newid, ac mae'n rhoi cyfle i ailystyried y ffordd y mae gwasanaethau lleol yn cael eu darparu gan gynnig arferion gweithio mwy hyblyg yng nghanol y dref.

Bydd mwy o weithgareddau newydd yng nghraidd canol y dref yn helpu i gefnogi ac ehangu gweithgarwch economaidd a bywiogrwydd trwy gydol y dydd a chyda'r nos, gan roi rheswm i drigolion lleol, gweithwyr ac ymwelwyr ymweld â'r lle.

Mae canol y dref hefyd yn cynnig cyfle sylweddol i wella'r amgylchedd, yn enwedig y tir cyhoeddus, i helpu i arddangos safon y dreftadaeth a defnyddio'r lleoedd awyr agored o safon uchel yn well. Mae canol y dref yn cyfuno nifer o ardaloedd gwahanol, a gellir gwneud mwy i hyrwyddo'r dref fel cyrchfan wedi'i arwain gan brofiad, sy'n sicrhau'r budd mwyaf o hanes y dref, diwylliant Cymru a chyfleusterau canol tref rhanbarthol.

## Meysydd blaenoriaeth gofodol

Mae'r prif gynllun adfer wedi'i ganoli o amgylch pedwar maes strategaeth gwahanol, sy'n darparu'r ffocws gofodol ar gyfer gweithredu ac ymyrraeth.

**Y porth dwyreiniol/chwarter diwylliannol**

*Ardal flaenoriaeth ar gyfer gwella tir y cyhoedd a sbarduno adfywiad, gweithgarwch defnydd cymysg a chymorth i fusnesau bach annibynnol, gweithgarwch diwylliannol, a'r economi gyda'r nos mewn ardal sy'n wynebu trawsnewidiad gyda rhai adeiladau gwag amlwg, ochr yn ochr â rhai asedau diwylliannol a safleoedd datblygu craidd*

**Y craidd hanesyddol**


*Ardal flaenoriaeth sy'n cynrychioli ased treftadaeth canol y dref, a'r cysylltiad rhwng yr hen dref a'r dref newydd. Cyfle sylweddol i wneud defnydd cyhoeddus o'r lleoedd awyr agored fel man diogel i gerddwyr ar gyfer gweithgareddau diwylliannol, bwyd a diod, ac adloniant trwy gydol y dydd/gyda'r nos, ochr yn ochr â gwelliannau ansoddol i wella'r profiad awyr agored.*

**Y craidd masnachol canolog**

*Ardal ar gyfer diogelu'r gweithgaredd masnachol craidd sy'n canolbwyntio ar fanwerthu, hamdden a lletygarwch, gan gynnwys angorau canolfannau siopa Maes Myrddin a Rhodfa Santes Catrin gydag atyniadau eraill sy'n denu ymwelwyr*

**Yr ymyl ddeheuol**

*Yr ardal rhwng y craidd hanesyddol a Ffordd y Cwrwg, gan gynnwys Neuadd y Sir a Heol y Cei, sy'n darparu cysylltiadau i'r Cei a glan yr afon. Mae'r ardal yn cynnig cyfle i wella'n ansoddol o ystyried lleoliad y 'porth', ynghyd ag ardaloedd trawsnewid, yn enwedig yn Heol y Cei.*





*Mae'r ffocws ar gyfer y prif gynllun wedi'i ganoli ar ardal graidd canol y dref o ystyried yr amcan sy'n cael blaenoriaeth yn y tymor byr i amddiffyn a chryfhau apêl traddodiadol canol y dref.*

*Er gwaethaf y blaenoriaethu daearyddol hwn, mae'n parhau i gefnogi ac ategu'r amcanion a'r dyheadau ehangach a nodwyd ym Mhrif Gynllun Adfywio Tref Caerfyrddin 2014 sy'n nodi nifer o feysydd â blaenoriaeth, fel y Cei a Glan yr Afon. Mae nifer o brosiectau wedi cael eu symud ymlaen neu wedi dod yn destun buddsoddiad gan y sector preifat a chyhoeddus, ac maent yn parhau i fod yn rhan annatod o gefnogi'r pedair blaenoriaeth sylfaenol o wella Caerfyrddin fel cyrchfan i breswylwyr, gweithwyr ac ymwelwyr.*

## Y porth dwyreiniol/chwarter diwylliannol

**Nod strategol:**

Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar adfywio gweithgarwch, y parth cyhoeddus a'r amgylchedd adeiledig, a'r ystod o ddefnyddiau yng nghanol Chwarter yr Hen Dref, gan adeiladu ar yr asedau treftadaeth a diwylliannol presennol fel Eglwys San Pedr, Oriel Myrddin, y llyfrgell (sy'n gartref i Archifau Sir Gaerfyrddin) a Theatr y Lyric, ochr yn ochr â'r gymuned fusnes annibynnol. Mae'r llwybr dros dro i gerddwyr yn unig ar hyd Heol y Brenin yn cynnig cyfleoedd i ymchwilio i newidiadau tymor hwy er mwyn annog gweithgareddau gwell ar y stryd ac mewn ardaloedd cyhoeddus, ynghyd â chefnogaeth ar gyfer cymysgedd ehangach o ddefnyddiau, i adeiladu ar ddiwylliant annibynnol yr ardal, a chwmpas i greu atyniadau i ddenu ymwelwyr, gan gynnwys y potensial ar gyfer defnyddiau cysylltiedig ag addysg, yn enwedig hwb ar gyfer y diwydiannau creadigol ac ardal breswyl i fyfyrwyr, sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol. Mae nifer o adeiladau gwag amlwg yn bodoli, yn enwedig ar Heol y Brenin, (Swyddfa'r Post, yr hen uned Family Value) sy'n cynnig cyfleoedd ar raddfa fawr i'w hailddefnyddio er mwyn gwella ymddangosiad ansoddol yr ardal. Mae'r ardal yn cynrychioli 'chwarter annibynnol, diwylliannol' o ganol y dref ac yn cynnig cyfle da i ehangu ar amrywiaeth o ddefnyddiau i ymestyn gweithgarwch economaidd, yn enwedig gyda'r nos, a hyrwyddo pentref o grefftwyr.



## Prosiect 1: Mynedfa i faes parcio Heol San Pedr

**Amcan**

Ar hyn o bryd, mae mynedfa'r maes parcio yn tynnu oddi ar gymeriad hanesyddol a safon uchel yr ardal, gan greu argraff gyntaf negyddol o'r lleoliad.

Bydd cynllun sy'n cynnwys cynigion ar gyfer llwybrau cerdded estynedig, gorffeniadau cerrig naturiol, ffensys newydd, arwyddion, a phlannu coed/planhigion addurnol yn helpu i wella'r pwynt cyrraedd hwn ac ategu cymeriad yr ardal.



**Tasgau**

1. Cysylltu â'r tîm Priffyrdd i gytuno ar gwmpas a pharamedrau ar gyfer dylunio, hynny yw a oes angen ail drefnu'r priffyrdd a'r trefniadau mynediad? A oes angen gwneud gwelliannau amgylcheddol eraill yn y maes parcio ehangach?
2. Paratoi briff ar gyfer dylunio cynllun gwella amgylcheddol (tua Cham 4 o Gynllun Gwaith Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain). Dylai'r astudiaeth gynnwys y canlynol:
   - Dyluniad technegol o'r priffyrdd yn ôl yr angen
   - Cynigion yn ymwneud â thir cyhoeddus, gan gynnwys palmentydd, plannu, waliau terfyn, seddi, arwyddion goleuadau, tacluso
   - Adolygiad o unrhyw Orchmynion Rheoleiddio Traffig presennol
   - Arfarniad o'r dull 'Mynediad i bawb'
   - Palet o ddeunyddiau, celfi stryd a goleuadau sy'n cydlynu â'r hyn sydd yno eisoes yng nghyffiniau Eglwys San Pedr
   - Ymgysylltu â rhanddeiliaid
   - Arfarniad o gostau, asesiad risg, amserlen gyflwyno
3. Er mwyn cefnogi'r astudiaeth ddichonoldeb, dylid cynnal neu gomisiynu'r canlynol:
   - Arolwg topograffig o ardal yr astudiaeth
   - Arolwg o gyfleustodau, arolwg o isloriau, ac arolwg radar
   - Cysylltu ag ymgymerwyr statudol i ddeall gwaith posibl yn yr ardal yn y dyfodol
   - Asesiad o gyfleoedd cyllido

## Prosiect 2: Gwella mynediad i Heol y Brenin/Heol y Frenhines

### Amcan

Yn flaenorol, nodwyd Heol y Brenin a Heol y Frenhines fel mannau posibl ar gyfer creu parth i gerddwyr yn unig, ac mae'r mesurau dros dro sydd ar waith i ganiatáu cadw pellter cymdeithasol oherwydd COVID-19 wedi caniatáu asesiad rhagarweiniol o'i effaith.

Mae manteision posibl creu parth i gerddwyr yn unig yn cynnwys amgylchedd mwy diogel a chyfeillgar i gerddwyr, mwy o le i gael seddi allanol, lleoedd bwyta, gwerthu nwyddau ar y stryd, a lle i stondinau marchnad er mwyn cynyddu nifer yr ymwelwyr. Ymddengys nad oes llawer o anfanteision gan nad yw'r llwybr yn llwybr trwodd strategol ac nid yw'n darparu mannau parcio sylweddol ar y stryd.

Ar y sail hon, dylid ymchwilio ymhellach i'r potensial ar gyfer creu parth i gerddwyr yn unig, ynghyd â dulliau eraill o reoli mynediad i'r stryd, gan ystyried mynediad ac amseriad danfoniadau; triniaethau wyneb a rennir, a'r posibilrwydd o gau'r ffyrdd i draffig yn ystod gwahanol dymhorau.

Dylai unrhyw ailgynllunio cynhwysfawr gynnwys gweithredu deunyddiau o ansawdd uchel (gan gynnwys carreg naturiol) a dull cyson o gelfi stryd i wella hunaniaeth yr ardal.

### Tasgau

1. Cysylltu â'r tîm Priffyrdd i gytuno ar gwmpas a pharamedrau'r astudiaeth ddichonoldeb.
2. Paratoi briff ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb ac opsiynau i archwilio'r ystod o ddulliau o wella hygyrchedd cerddwyr (tua Cham 3 o Gynllun Gwaith Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain). Dylai'r astudiaeth gynnwys y canlynol:
   - Opsiynau ac asesiad o amrywiaeth o ddulliau dylunio gan gynnwys creu parth i gerddwyr, priffyrdd mwy cul, arwynebau a rennir, mynediad llai/wedi'i reoli ar gyfer defnyddwyr cerbydau gwahanol, llai/dim parcio, ac ati.
   - Arfarnu goblygiadau'r rhwydwaith ehangach ac adolygu'r Gorchmynion Rheoleiddio Traffig sydd eisoes ar waith
   - Cyfleoedd i gael seddi yn yr awyr agored, ardaloedd arddangos i fusnesau, stondinau marchnad ac adolygu trefniadau trwyddedu palmantau
   - Archwiliad i gelfi ac arwyddion stryd a chynigion ar gyfer tacluso'r stryd
   - Dull 'Mynediad i bawb' o arfarnu opsiynau.
   - Palet o ddeunyddiau, celfi stryd a goleuadau sy'n cydlynu â chynigion ar gyfer canol y dref yn y dyfodol
   - Strategaeth ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid / y cyhoedd
   - Arfarniad o'r costau; Asesiad risg; Amserlen gyflwyno
3. Er mwyn cefnogi'r astudiaeth ddichonoldeb, dylid cynnal neu gomisiynu'r canlynol:
   - Arolwg topograffig
   - Arolwg o gyfleustodau, arolwg o isloriau, ac arolwg radar.
   - Cysylltu ag ymgymerwyr statudol
   - Asesiad o gyfleoedd cyllido



Yn bodoli eisoes



Byddai ailgynllunio amgylchedd y stryd yn creu lle mwy deniadol a defnyddiadwy sy'n groesawgar i gerddwyr, ac yn creu cyfleoedd ar gyfer stondinau, byrddau a chadeiriau, a digwyddiadau ar y stryd. Gellir rheoli mynediad i gerbydau er mwyn caniatáu danfoniadau a gwasanaethau brys mewn stryd a rennir



## Prosiect 3: Gwella’r chwarter diwylliannol

**Amcan**

Mae’r syniad o ‘chwarter diwylliannol’ yn seiliedig ar asedau treftadaeth, diwylliannol ac addysgol presennol fel Eglwys San Pedr, Oriel Myrddin, llyfrgell (yn gartref i Archifau Sir Gaerfyrddin) a Theatr y Lyric, ynghyd â’r gymuned fusnes annibynnol, wedi magu momentwm yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Mae’r strategaeth hon yn ceisio cydgrynhoi’r syniad hwn trwy ystod eang o welliannau wedi’u canolbwyntio yn lleol sy’n gwella gwead a chymeriad y rhan hon o’r dref ac yn annog ac yn ehangu gweithgarwch economaidd, diwylliannol ac addysgol.

**Tasgau**

1. Cysylltu â pherchnogion adeiladau a busnesau i wella ymddangosiad a chynnal a chadw tu blaen siopau ac adeiladau allweddol, fel adeilad art déco King Street Furnishers, Swyddfa’r Post, a mynedfa’r cyntedd i Theatr y Lyric.
2. Gwelliannau amrywiol i’r tir cyhoeddus a’r strydlun, yn cynnwys sicrhau bod atalbyst a chelfi, seddi, basgedi crog, baneri tymhorol a baneri ar waith yn gyson. Mae hyn yn cael ei ystyried yn fesur dros dro cyn i welliannau tymor hwy i’r tir cyhoeddus gael eu rhoi ar waith.
3. Adolygu swyddogaeth ac ymddangosiad y lloches beiciau ger Oriel Myrddin ac ystyried seilwaith beiciau newydd fel e-feiciau, i hyrwyddo eu defnydd gan fyfyrwyr ac ymwelw
4. Adolygu darpariaeth ac amodau trwydded palmantau i hyrwyddo mwy o ddefnydd o’r lle tu allan, bwyta yn yr awyr agored, yr economi gyda’r nos, a masnachwyr annibynnol.
5. Nodi lleoliadau addas ar gyfer stondinau marchnad yn ystod cyfnod y cyfyngiadau mynediad dros dro yn Heol y Brenin a Heol y Frenhines, a monitro eu heffaith ar nifer yr ymwelwyr a busnesau lleol, gan ystyried yr achos busnes dros greu parth i gerddwyr yn unig.
6. Ymchwilio i ailddefnyddio eiddo gwag amlwg - gan gynnwys defnyddiau posibl gan y Brifysgol ar gyfer ardaloedd preswyl i fyfyrwyr, hwb addysg, y diwydiannau creadigol/digidol.
7. Ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer gwesty.
8. Comisiynu gwaith celf i nodi’r fynedfa i Lôn Jackson o Heol y Brenin.
9. Asesu gwerth posibl brandio a hyrwyddo’r ardal fel ‘chwarter’ a chyrchfan benodol yng nghanol y dref.








## Y craidd hanesyddol

**Nod strategol:**

Mae ased treftadaeth canol y dref, yr ardal wedi'i chanoli ar Maes Nott, y Clos Mawr a'r Castell, yn nodi'r trawsnewidiad rhwng y chwarter annibynnol a diwylliannol, a'r ganolfan siopa fodern. Mae ffocws y strategaeth ar welliannau ansoddol i'r amgylchedd a'r asedau adeiledig unigryw presennol, ochr yn ochr â defnydd mwy rhagweithiol o'r ardal hon, trwy adeiladu ar fentrau sy'n bodoli eisoes a darparu'r seilwaith a'r amodau priodol i gefnogi mwy o ddefnydd cyhoeddus (diogel, wedi'i warchod gan y tywydd) o'r lleoedd awyr agored, i ddarparu ar gyfer bwyd/diod/lletygarwch ac adloniant/gweithgareddau stryd. Mae hon yn flaenoriaeth ar unwaith i helpu i ymestyn gweithgarwch economaidd y dydd a'r tymor ac ymateb i ofynion cadw pellter cymdeithasol.



## Prosiect 4: Y Clos Mawr a Maes Nott

**Amcan**

Mae'r Clos Mawr, Maes Nott a'r llwybrau sy'n eu cysylltu, yn cynrychioli craidd hanesyddol canol y dref, ac yn ased allweddol ac yn atyniad i ymwelwyr.

Nid yw safon y tir cyhoeddus yn yr ardaloedd hyn yn cyd-fynd â safon na chymeriad ei leoliad, ac ystyrir bod gwelliannau yn flaenoriaeth.

Yn y tymor byr, dëellir bod rhai gwelliannau addurnol i'r lleoedd allweddol hyn yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd gan y 'Grŵp Tir Cyhoeddus'. Fodd bynnag, yn y tymor canolig, mae angen gwneud gwelliannau cynhwysfawr i'r palmentydd a'r celfi er mwyn gwireddu potensial llawn yr ardal bwysig hon.

Sylwer y gallai rhai o'r tasgau a restrir isod fod ar y gweill eisoes trwy waith y 'Grŵp Tir Cyhoeddus'.

**Tasgau**

1. Ystyried darparu cymorth ymgynghorol i'r 'Grŵp Tir Cyhoeddus', i archwilio'r meysydd allweddol hyn o ran gwelliannau tymor byr.
2. Tacluso'r lle a sicrhau bod celfi, seddi, arwyddion ac ati yn cael eu darparu yn gyson.
3. Adolygu darpariaeth ac amodau trwydded palmantau i hyrwyddo mwy o ddefnydd o'r lle tu allan, bwyta yn yr awyr agored, yr economi gyda'r nos, a masnachwyr annibynnol.
4. Dyrannu lle i rannau canolog y sgwariau ar gyfer stondinau marchnad, stondinau bwyd stryd a/neu lwyfannu dan do ar gyfer ardaloedd bwyta y tu allan y gellir eu defnyddio yn ystod tywydd garw ac yn gynnar/hwyr yn y tymor, ac ati). Gallai seilwaith gynnwys trydan, diogelwch, dodrefn a goleuadau o bosibl. Dylid ystyried llwybrau cerbydau a ganiateir, danfoniadau a mynediad brys.
5. Dylid ymchwilio i drwyddedu a lleoliadau ar gyfer perfformiadau stryd hefyd.
6. Dathlu treftadaeth y dref a'i lleoedd gyda baneri tymhorol gan addurno gyda basgedi crog a goleuadau tymhorol.
7. Paratoi briff ar gyfer dylunio cynllun tir cyhoeddus (tua Cham 4 o Gynllun Gwaith Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain). Dylai'r astudiaeth gynnwys y canlynol:
   - Cynigion tir cyhoeddus gan gynnwys palmentydd, plannu coed, seddi, arwyddion, goleuadau, tacluso
   - Adolygiad o unrhyw Orchmynion Rheoleiddio Traffig sydd eisoes mewn grym
   - Arfarniad o'r dull 'Mynediad i bawb'
   - Palet o ddeunyddiau, celfi stryd a goleuadau sy'n cydlynu â chanol y dref, yn cynnwys disodli'r palmant concrit presennol â charreg, a darparu celfi naturiol sy'n cyd-fynd â'r dref ac sy'n briodol i'w leoliad hanesyddol pwysig
   - Ymgysylltu â rhanddeiliaid
   - Arfarniad o gostau, asesiad risg, amserlen gyflwyno
8. Er mwyn cefnogi'r astudiaeth ddichonoldeb, dylid cynnal neu gomisiynu'r canlynol:
   - Arolwg topograffig o ardal yr astudiaeth
   - Arolwg o gyfleustodau, arolwg o isloriau, ac arolwg radar.
   - Cysylltu ag ymgymerwyr statudol i ddeall gwaith posibl ar y stryd yn y dyfodol
   - Asesiad o gyfleoedd cyllido



## Prosiect 5: Mynedfa'r Castell

### Amcan

Mewn cydweithrediad â'r Clos Mawr a Maes Nott, mae'r Castell yn ased gwerthfawr ac yn atyniad pwysig i ymwelwyr. Ar hyn o bryd, mae ymddangosiad adeiladau cyfagos yn effeithio'n ddifrifol ar y fynedfa. Dylai gwella'r amgylchedd yn yr ardal hon fod yn flaenoriaeth.

Yn yr un modd â'r Clos Mawr a Maes Nott, mae'r 'Grŵp Tir Cyhoeddus' wedi nodi cyfleoedd i wella ymddangosiad a hygyrchedd ac wedi'u gweithredu, ac wedi cyflwyno menter seddi awyr agored llwyddiannus mewn ymateb i bandemig COVID-19. Yn y tymor canolig, dylid cydlynu ailgynllunio cynhwysfawr o'r ardal hon â Maes Nott.

### Tasgau

1. Ystyried darparu cymorth ymgynghorol i'r 'Grŵp Tir Cyhoeddus', i archwilio'r meysydd allweddol hyn o ran gwelliannau tymor byr.
2. Tacluso mynediad y castell trwy gael gwared ar yr holl gelfi stryd sydd rhwng y castell a Maes Nott.
3. Ymchwilio i opsiynau i wella'r driniaeth ffiniol i ymyl ogleddol mynediad y castell a'i ryngwyneb i adeiladau cyfagos. Gallai hyn gynnwys stondinau dros dro yn y tymor byr a wal gerrig uchel barhaol newydd, gyda stondinau marchnad yn y tymor hwy. Dëellir bod murlun ar gyfer y wal dalcen wag yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.
4. Ymchwilio i syniadau ar gyfer baneri a chynllun goleuadau theatrig i fywiogi'r lle ac atgyfnerthu ei bresenoldeb yn y dref.
5. Dylid cael dyhead tymor canolig i ailddylunio mynediad y castell i greu man ymgynnull/perfformio gwastad y gellir ei ddefnyddio. Dylai'r ymarfer hwn gael ei ymgorffori mewn cynllun ehangach ar gyfer gwella tir cyhoeddus i Maes Nott a'r Clos Mawr.



## Prosiect 6: Y lonydd



Mae gwelliannau tir cyhoeddus i sgwâr y farchnad yng Nghastell Caernarfon (isod) wedi creu man syml, taclus â charreg naturiol, sy'n caniatáu lle i gynnal digwyddiadau, gosod byrddau a chadeiriau, ac ati.




**Amcan**

Mae'r lonydd niferus yng nghanol y dref yn nodwedd ddiddorol a nodweddiadol o hanes a morffoleg y dref, fodd bynnag, nid yw llawer ohonynt yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, ac o ganlyniad nid ydynt yn groesawgar i gerddwyr.

Bydd prosiect i weithio gyda pherchnogion adeiladau a busnesau ger y lonydd, i lanhau, atgyweirio, ail-wynebu, goleuo a chyfeirio'r llwybrau hyn, yn annog ymwelwyr i'w defnyddio i archwilio'r dref.


**Tasgau**

1. Paratoi briff ar gyfer archwiliad o'r lonydd. Dylai'r archwiliad gynnwys y canlynol:
    - Mapio a mesur y lonydd.
    - Asesiad o gyflwr deunyddiau wyneb, lefelau a materion yn ymwneud â hygyrchedd.
    - Asesiad o driniaeth i'r ffiniau gan gynnwys gorffeniad yr wyneb, cyflwr a pherchenogaeth.
    - Asesiad o'r goleuadau
    - Argymhellion ar gyfer gwelliannau, gan gynnwys cyfyngiadau posibl, costau lefel uchel, a rhaglen weithredu bosibl
    - Cwmpasu'r potensial i brosiect pellach weithredu cyfres o brosiectau celf gyhoeddus i atgyfnerthu a chyfleu diwylliant a threftadaeth y dref, a darparu lleoedd ychwanegol o ddiddordeb a chysylltedd.










# Y craidd masnachol canolog

**Nod strategol:**

Yn ardal sydd wedi cael ei gyrru gan y farchnad manwerthu fasnachol yn draddodiadol, mae calon y dref yn wynebu heriau a bygythiadau sylweddol, yn enwedig i'r sector manwerthu, yn sgil colli atyniadau allweddol fel Debenhams. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar fanwerthu, hamdden a lletygarwch yng nghanol y dref, sy'n cynnwys nifer o angorau allweddol, sef Maes Myrddin a Rhodfa Santes Catrin ynghyd ag atyniadau eraill. Mae nifer o unedau mawr gwag ar gael sy'n cynnig cyfle ar gyfer defnyddiau newydd, gan gynnwys cyfleusterau posib i bartneriaid yn y sector cyhoeddus yrru gweithgarwch a chynyddu nifer yr ymwelwyr, ond hefyd gan gefnogi amrywiaeth o ran eu defnydd. Ceir cyfleoedd ar gyfer gwneud gwelliannau i'r tir cyhoeddus, yn enwedig yn Heol Goch, tra bod y strategaeth yn ceisio cefnogi ehangu'r farchnad awyr agored a sicrhau cysylltiad cyfannol â dyheadau a gweithgaredd y sector preifat.



## Prosiect 7: Gerddi Lôn Jackson

**Amcan**

Mae Lôn Jackson yn flaenoriaeth prosiect ymroddedig i ganol y dref, ac mae gwaith eisoes ar y gweill i adolygu cynlluniau cynharach ar gyfer yr ardal.

Mae'r Prif Gynllun Adfer wedi nodi'r ardal fel ased allweddol i ganol y dref, gan ei fod yn darparu man gwyrdd agored gyda phrofiad amgen gwerthfawr i ymwelwyr, mewn cyferbyniad â nifer o fannau cyhoeddus palmantog y dref. Mae hefyd yn darparu cyfleoedd i fusnesau sydd eisoes yn bodoli a busnesau newydd, ac felly argymhellir bod yr ardal hon yn cael ei gwella o ran ei hymddangosiad, ei hygyrchedd, a'i photensial i gynnal gweithgareddau a digwyddiadau masnachol cymedrol.

Dylai cymeriad y gwelliannau gadw'r cymeriad cyfeillgar, diffuant ac artistaidd y mae'r lle yn ei ddarparu ar hyn o bryd. Mae cynnwys mwy o sgriniau neilltuedig (e.e. ardaloedd storio biniau) ac ymestyn yr amgylchedd gwarchodedig hefyd yn ddymunol. Dëellir bod prosiect seilwaith gwyrdd/glas ar wahân wedi'i nodi ac mae'n debyg y byddai'n ddelfrydol ei ymgorffori i unrhyw gynigion yn y dyfodol heb gyfaddawdu ar y prif amcanion eraill.

Yn dibynnu ar y gost gyffredinol a'r arian sydd ar gael, gellid datblygu'r prosiect hwn ar y cyd â Phrosiect 8: Heol y Capel, Maes Cambria, Heol Ioan

**Tasgau**


1. Cynllun gwelliannau tymor byr i gynnwys atgyweiriadau ac addasiadau i'r llwybrau a'r waliau, cynnal a chadw coed, plannu addurniadol, a gosod tyweirch yn haf 2021.
2. Dylid caniatáu adolygiad o drwyddedau cyfredol i fusnesau ddefnyddio'r lle y tu allan a chodi ardaloedd dan do, a dylid mynd ar drywydd cyfleoedd ar gyfer stondinau dros dro, ac ati.
3. Paratoi briff ar gyfer ailgynllunio'r lle yn gynhwysfawr o opsiynau cysyniad i ddyluniad technegol llawn y cynllun a ffefrir (tua Cham 4 o Gynllun Gwaith Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain). Mae'n bosibl y bydd angen cynnwys rhai cysyniadau rhagarweiniol yn ymwneud â chwmpasu, ymgynghori a dylunio lefel uchel yn y briff er mwyn darparu cyfeiriad clir ar gyfer y camau manwl.
4. Dylai'r astudiaeth gynnwys y canlynol:
   - Datblygu opsiynau cysyniad mewn 3D hyd at y dyluniad technegol llawn yn barod i'w adeiladu
   - Dull 'Mynediad i bawb' o arfarnu opsiynau.
   - Palet o ddeunyddiau, celfi stryd a goleuadau a fydd o bosib yn unigryw i'r gerddi.
   - Strategaeth ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid / y cyhoedd
   - Arfarniad o'r costau; Asesiad risg; Amserlen gyflwyno
5. Er mwyn cefnogi'r astudiaeth ddichonoldeb, dylid cynnal neu gomisiynu'r canlynol:
   - Arolwg topograffig
   - Arolwg o gyfleustodau, arolwg o isloriau, ac arolwg radar.
   - Cysylltu ag ymgymerwyr statudol
   - Asesiad o gyfleoedd cyllido

Mae ffurf bresennol Lôn Jackson yn darparu lle tawel yng nghanol y dref, ac mae'n gyrchfan amgen ddeniadol o'i chymharu â Maes Nott a'r Clos Mawr sydd gerllaw.

Bydd cadw'r cymeriad gwyrdd a diarffordd hwn yn darparu amrywiaeth o brofiadau a fydd yn apelio at ystod eang o ymwelwyr.







## Prosiect 8: Heol y Capel, Maes Cambria, Heol Ioan

### Amcan

Nid yw'r grŵp hwn o strydoedd yn cynnwys unrhyw ffryntiadau manwerthu sylweddol ac mae iardiau dosbarthu a chefnau adeiladau yn eu dominyddu. Fodd bynnag, mae'r ardal hon rhwng prif gyrchfannau Heol y Frenhines a Heol Goch, ac o'r herwydd, mae'n darparu llwybrau cysylltu pwysig sy'n cael eu defnyddio gan gerddwyr.

Yn gyffredinol, mae'r strydoedd hyn o ansawdd treflun gwael ac yn tynnu'n sylweddol oddi wrth amgylchedd trefol canol tref y dref, sydd o safon uchel.

Dylid gwneud gwelliannau amgylcheddol i greu strydlun deniadol, diogel a defnyddiadwy gan gynnwys ffiniau gwell, ffryntiadau prysur, a gwell lle ar y strydoedd.

Dëellir y gallai elfennau o'r ardal hon gael eu gwella gan y cynigion ar gyfer Lôn Jackson.

### Tasgau

1. Dylai cwmpasu prosiect Lôn Jackson gynnwys y meysydd hyn i ddeall yr hyn y gellid ei gyflawni o fewn cyfyngiadau'r gyllideb heb gyfaddawdu ar y dyheadau ar gyfer prosiect Lôn Jackson.
2. Pan fydd y gyllideb sydd ar gael yn cael ei phennu, yna gellir sefydlu cwmpas y prosiect gwella amgylcheddol ar gyfer Heol y Capel, ac o bosibl Maes Cambria a Heol Ioan.
3. Paratoi briff (neu ymestyn briff Lôn Jackson) i gynnwys opsiynau cysyniad i ddyluniad technegol llawn gwelliannau i'r strydlun (tua Cham 4 o Gynllun Gwaith Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain). Dylai'r astudiaeth gynnwys y canlynol:
   - Datblygu opsiynau cysyniad mewn 3D hyd at y dyluniad technegol llawn yn barod i'w adeiladu - gan gynnwys arwynebau, waliau, plannu, cyflenwadau trydan dros dro, arwyddion.
   - Dull 'Mynediad i bawb' o arfarnu opsiynau.
   - Palet o ddeunyddiau a chelfi stryd sy'n gyson â'r gwelliannau ehangach i'r parth cyhoeddus yng nghanol y dref.
   - Strategaeth ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid / y cyhoedd
   - Arfarniad o'r costau; Asesiad risg; Amserlen gyflwyno
4. Er mwyn cefnogi'r astudiaeth ddichonoldeb, dylid cynnal neu gomisiynu'r canlynol:
   - Arolwg topograffig
   - Arolwg o gyfleustodau, arolwg o isloriau, ac arolwg radar.
   - Cysylltu ag ymgymerwyr statudol
   - Asesiad o gyfleoedd cyllido





Ar hyn o bryd, mae gatiau marchnad hanesyddol y dref yn cael eu storio a gellid eu hymgorffori yn y cynigion ar gyfer Heol y Capel / Lôn Jackson.



## Prosiect 9: Heol Goch

**Amcan**

Dylai'r tir cyhoeddus yn Heol goch gael ei ailgynllunio ar y cyd â gwelliannau a gynigir ar gyfer y Clos Mawr a Maes Nott, i wella ei ymddangosiad yn sylweddol a chreu mwy o le y gellir ei ddefnyddio.

Dylai'r arddull a'r ymddangosiad gydweddu neu ategu'r deunyddiau a'r celfi a ddefnyddir ar gyfer yr ardaloedd siopa i gerddwyr i'r gogledd, er mwyn atgyfnerthu hunaniaeth y craidd masnachol a chyferbynnu'n gadarnhaol â'r ardaloedd hanesyddol cyfagos

**Tasgau**

1. Yn y tymor byr, dylid ystyried y potensial ar gyfer gwelliannau amrywiol, gan gynnwys tacluso, glanhau'r palmant presennol, a thynnu'r planwyr crwn a'r seddi.
2. Cysylltu â pherchnogion y datblygiadau sy'n wynebu Heol Goch o ran glanhau ac atgyweirio lefelau'r adeiladau sy'n wynebu'r stryd, yn enwedig ar lefel y llawr daear i ochr orllewinol y stryd.
3. Nodi lle pwrpasol ychwanegol ar gyfer stondinau marchnad a chyflenwadau trydan dros dro.
4. Ymgymryd â chwmpas rhagarweiniol ar gyfer adnewyddu'r tir cyhoeddus. Er bod hyn yn cael ei ystyried yn llai o flaenoriaeth o'i gymharu â Maes Nott a'r Clos Mawr, gellid paratoi'r dyluniadau rhagarweiniol ar yr un pryd, ond eu cyflwyno yn ddiweddarach.
5. Paratoi briff (neu ehangu ar friff Maes Nott/y Clos Mawr) i gynnwys opsiynau cysyniad ar gyfer gwella'r strydlun (tua Cham 2/3 o Gynllun Gwaith Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain). Dylai'r astudiaeth gynnwys y canlynol:
    - Datblygu opsiynau cysyniad mewn 3D ar gyfer palmantu, plannu, celfi, tacluso, ac ati.
    - Dull 'Mynediad i bawb' o arfarnu opsiynau.
    - Palet o ddeunyddiau a chelfi stryd sy'n gyson â'r gwelliannau ehangach i'r parth cyhoeddus yng nghanol y dref.
    - Strategaeth ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid / y cyhoedd
    - Arfarniad o'r costau lefel uchel; Asesiad risg; Amserlen gyflwyno



## Prosiect 10: Rhodfa'r Farchnad

**Amcan**

Mae Cwrt y Farchnad yn darparu lle mewn rhan o ganol y dref sydd wedi'i gyfyngu fel arall. Fodd bynnag, nid yw'n cael ei defnyddio ddigon, a byddai'n elwa o fân welliannau cynnal a chadw a thir cyhoeddus.

**Tasgau**

1. Dylid atgyweirio a glanhau'r palmant presennol.
2. Dylai gwelliannau parhaol gynnwys y canlynol:
    - Gwell defnydd o'r lle, gan gynnwys ardaloedd pwrpasol ar gyfer stondinau marchnad, bwyd stryd, byrddau a chadeiriau
    - Cyflenwadau trydan dros dro
    - Celfi stryd newydd i gydlynu â strategaeth tir cyhoeddus ledled y dref
    - Goleuadau stryd i greu lleoliad mwy amgylchynol a diogel



## Yr ochr ddeheuol


### Nod strategol:

Ardal gymharol gymysg a chywasgedig, sy'n cynrychioli cysylltiad hanesyddol o graidd y dreftadaeth i'r prif borth ac i lan yr afon. Mae Heol y Cei yn trawsnewid o leoliad swyddfa (i breswyl yn bennaf) er bod heriau'n parhau tra bod yr amgylchedd ehangach, gan gynnwys o amgylch Neuadd y Sir, yn cynnig cyfle i wella'n ansoddol.

Gan gydnabod pwysigrwydd glan yr afon (sy'n cael ei ystyried y tu hwnt i'r tymor byr), ystyrir bod gwella cysylltiadau diogel a deniadol yn bwysig ar gyfer annog mwy o fynedfeydd i'r glannau.









## Prosiect 11: Heol y Cei

**Amcan / Tasgau**

Adnewyddu ac annog mwy o ddeiliadaeth yn y stryd ddeniadol hon sy'n cysylltu canol y dref â glan yr afon.

1. Cysylltu â pherchnogion adeiladau a busnesau i wella ymddangosiad a gwaith cynnal a chadw yr adeiladau.
2. Gwelliannau amrywiol i'r tir cyhoeddus a'r strydlun gan gynnwys sicrhau bod atalbyst a chelfi cyson ar waith, gyda'r dyhead tymor hwy o ailaddurno.

## 12. Wal y Castell yn edrych dros Ffordd y Cwrwg

**Amcan / Tasgau**

Mân atgyweiriadau a gwelliannau i gyflwyno'r waliau hanesyddol yn well, fel nodwedd ddiffiniol wrth ddynesu at ganol y dref.

1. Mae'r ardaloedd ger waliau'r castell sy'n weddill yn gofyn am amryw o welliannau amgylcheddol, gan gynnwys ail-baentio (neu weithiau celf) waliau'r talcen cyfagos, cynllun i oleuo wal y castell, gwaith atgyweirio ac ail-baentio'r rheiliau metel a gwell mynediad i'r afon.

## 13. Neuadd y Sir

**Amcan / Tasgau**

Dylid glanhau'r wal gynnal ag wyneb carreg i ochr ddeheuol Neuadd y Sir ac ystyried gosod cynllun goleuo ar waliau ac adeiladau, gan fod yr ardal hon yn dynodi ymyl canol y dref wrth ddynesu o'r de.

1. Casglu dyfynbrisiau ar gyfer glanhau ac atgyweirio waliau.

## 14. Cysylltu ag afon Tywi

**Amcan / Tasgau**

Dylid ymchwilio i gysylltiad gwell i gerddwyr, gan gynnwys croesfannau, sy'n cysylltu canol y dref â glan yr afon.

1. Astudiaeth ddichonoldeb amlinellol i nodi cyfleoedd i greu cysylltiadau uniongyrchol i gerddwyr, gan ystyried mynediad i bawb, arwyddbyst, a chroesfannau gwell yn Ffordd y Cwrwg.

## 15. Glan yr Afon

**Amcan / Tasgau**

Cwmpasu a chychwyn strategaeth hirdymor ar gyfer rheoli digwyddiadau llifogydd ar lan yr afon i helpu dyheadau i adfywio'r ardal a'i chysylltu'n well â chanol y dref.

## Strategaethau eang ledled canol y dref

**Amcan / Tasgau**

Mae nifer o fentrau yng nghanol y dref a fydd yn cefnogi ac yn ategu'r prif gynllun adfer yn uniongyrchol. Mewn rhai achosion, nodir yr amcanion a'r mentrau i'w cyflawni gan Ardal Gwella Busnes Caerfyrddin, fel yr amlinellir ym mhedair blaenoriaeth y Cynllun Busnes ac maent yn feysydd i'r Is-grwpiau'r Fforwm Adfywio ganolbwyntio arnynt.

1. Dylid comisiynu canllaw dylunio canol y dref i nodi'r bwriad o sefydlu cyfres o balmentydd, celfi, arwyddion a goleuadau i helpu i sicrhau cydgysylltiad y cynlluniau tir cyhoeddus amrywiol a nodwyd fel rhan o'r Prif Gynllun Adfer ac i helpu i arwain prosiectau eraill yn y dyfodol.
2. Arwyddion twristiaid brown wedi'u lleoli wrth ddynesu at ganol y dref, i hyrwyddo'r atyniadau allweddol.

# Strategaeth eiddo

Dyma elfen graidd o'r prif gynllun adfer sy'n cael ei arwain gan eiddo, ac mae'n adlewyrchu pwysigrwydd strategaeth eiddo sy'n cefnogi ac yn cyfrannu'n uniongyrchol at amcanion adferiad a chyfleoedd canol tref yn y dyfodol.

Mae effaith pandemig COVID-19 wedi cyflymu llawer o dueddiadau strwythurol sydd wedi siapio'r stryd fawr fwyfwy dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn fwyaf amlwg yng nghyfansoddiad a defnydd newidiol canol y dref, yn enwedig newidiadau yn y sector manwerthu, ac i raddau llai, yn y farchnad swyddfeydd. Ar lefel leol mae hyn wedi arwain at gynnydd mewn unedau gwag yng nghanol tref Caerfyrddin yn enwedig yn Chwarter yr Hen Dref (e.e. Heol y Brenin, Heol y Frenhines), Heol y Cei a'r craidd masnachol, gan gynnwys Heol Goch, Ffordd Cambria a gwagleoedd mwy yng Nghanolfan Siopa Rhodfa Santes Catrin.

Mae'r pwysau a'r posibilrwydd o orfod cau sy'n wynebu manwerthwyr cadwyn cenedlaethol yn dwyn goblygiadau mawr i ganol y dref o ystyried ei ffocws i lawer o weithredwyr cenedlaethol sydd wedi arwain at golli nifer o ddenwyr allweddol, manwerthwyr dillad ac esgidiau ffasiwn yn bennaf. Mae hyn yn cyflwyno heriau mawr o ran sicrhau eu bod yn cael eu hailfeddiannu o'r newydd mewn ffordd ymarferol, gan adlewyrchu maint mawr yr unedau dan sylw a gostyngiad yn y galw am fanwerthu. Mae'r gorgyflenwad o unedau manwerthu yn pwysleisio mor bwysig ydyw sicrhau defnyddiau amgen a fydd yn helpu i ehangu'r ystod o weithgareddau sydd ar gael ac ymestyn yr amser mae preswylwyr, gweithwyr ac ymwelwyr yn aros yno gan amrywio'r rhesymau dros ymweld â chanol y dref trwy gydol y dydd a chyda'r nos. Mae cryfhau economi gyda'r nos yng nghanol y dref a gweithgarwch cysylltiedig yn rhan annatod o'r prif gynllun adfer.

Er bod un o amcanion craidd y prif gynllun yn ceisio diogelu rôl ranbarthol canol y dref ar gyfer manwerthu, hamdden a chyflogaeth, mae hefyd yn ceisio annog a hyrwyddo defnyddiau newydd gan roi sylw i adeiladau gwag ac adeiladau sy'n cael eu tanddefnyddio. Dylai'r flaenoriaeth hon ganolbwyntio ar y prif strydoedd siopa sydd wedi colli siopau cadwyn cenedlaethol, ac sy'n debygol o barhau i'w colli. Mae'n ceisio annog cymysgedd ehangach o ddefnyddiau i leoedd gwaith hyblyg, preswyl, gwesty, hamdden, addysg a defnydd cymunedol, gan gynnwys ail-bwrpasu eiddo. Bydd hyn yn gofyn am ymgysylltu â pherchnogion eiddo, buddsoddwyr, y diwydiant datblygu a darpar ddeiliaid. Bydd cyfleoedd i wella eiddo presennol a chyfleoedd lle bydd angen gwaith ailffocysu mwy cynhwysfawr yn y tymor hwy, fel Ffordd Cambria.

Bydd cau siop adrannol Debenhams yn golled sylweddol i ganol tref Caerfyrddin, yn enwedig lle mae'r rhagolygon realistig ar gyfer meddiannu uned fawr, amlwg gan un deiliad yn heriol. Bydd angen dull arloesol, ac mae'n debygol y bydd angen ymyrraeth gan y sector cyhoeddus i wneud y mwyaf o'r potensial ar gyfer defnydd(iau) amgen. Ceir adeiladau mawr eraill ar Heol y Brenin (er enghraifft, hen adeilad Swyddfa'r Post a hen uned Family Value) sydd hefyd yn cynnig potensial ar gyfer cymysgedd o ddefnyddiau gan gynnwys preswyl, gwesty a gweithle.

Mae presenoldeb cryf y sector cyhoeddus yng Nghaerfyrddin yn cyflwyno cyfleoedd da i ymchwilio, datblygu a thyfu hybiau gwaith y sector cyhoeddus o adeiladau mawr gwag yng nghanol y dref. Byddai hyn yn helpu i ddenu nifer o ymwelwyr newydd, gan gynnwys cwmpas ar gyfer cydleoli a chydweithio trwy weithleoedd/swyddfeydd a rennir. Mae'r potensial gan Gyngor Sir Caerfyrddin i ddarparu cyfleuster Hwb (yn absennol ar hyn o bryd yng nghanol y dref ond yn uchelgais) ac o bosibl gweithgareddau hamdden (fel ystafell ffitrwydd 24/7 a chyfleusterau chwarae sy'n destun ymchwiliad pellach) yn adlewyrchu'r mathau o weithgareddau y gellir eu darparu. Gallai partneriaid lleol allweddol eraill, gan gynnwys Bwrdd Iechyd Hywel Dda (yn y broses o adolygu ei ystâd eiddo sy'n gysylltiedig â gwasanaethau anghlinigol a gofal sylfaenol), Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Choleg Sir Gâr hefyd weithredu gwasanaethau iechyd ac addysg cymunedol o adeiladau canol y dref. Y prif fater yw'r potensial mawr i sbarduno mwy o weithgareddau cymdeithasol a chymunedol gan y sector cyhoeddus (ynghyd â phartneriaid yn y trydydd sector) o ystyried bod unedau gwag mawr ar gael i ddarparu ar gyfer y defnyddiau hyn.

## Prosiect 1: Cipolwg ar y farchnad leol

### Amcan

Er mwyn annog ac ymchwilio i gyfleoedd realistig at ddefnydd newydd yng nghanol y dref, yn enwedig trwy ailddefnyddio/ailbwrpasu eiddo gwag ac eiddo sy'n cael ei danddefnyddio, mae strategaeth eiddo yn gofyn am wybodaeth am y farchnad ac ymgysylltiad rhagweithiol â pherchnogion eiddo/landlordiaid/buddsoddwyr ac asiantau eiddo masnachol sy'n weithredol yng nghanol y dref. Mae'r prif gynllun hwn wedi cynnwys trafodaeth fanwl gyda pherchnogion adeiladau lleol, yn enwedig perchnogion y canolfannau siopa ac asiantau lleol, yr ystyrir eu bod yn hanfodol i reoli newid a sicrhau dealltwriaeth gynnar o fwriadau a dyheadau'r berchnogaeth, a gofynion y farchnad/deiliaid. Bydd angen cynnal deialog barhaus a bydd angen i gamau gweithredu alinio'n agos â'r strategaeth cymorth busnes sy'n ceisio annog gweithgareddau busnes newydd, gan gynnwys rôl eiddo wrth gefnogi ystod o lety arloesol a hyblyg, a'r telerau/amodau masnachol ar gyfer deiliaid. Bydd yr amcan hwn yn gwneud y canlynol:

- Ymchwilio a nodi asedau eiddo allweddol sy'n cynrychioli cyfleoedd addas, realistig ar gyfer defnyddiau newydd y tu hwnt i fanwerthu;
- Annog perchnogion, buddsoddwyr a datblygwyr eiddo i ystyried defnyddiau amgen ac ail-fwriadu asedau sy'n sicrhau gwerth economaidd a chymunedol ac yn sbarduno buddsoddiad yng nghanol y dref;
- Meithrin a hyrwyddo hyder buddsoddwyr yng nghanol y dref gan gefnogi cymysgedd ehangach o ddefnyddiau ac annog defnyddiau modern a hyblyg;
- Annog telerau/amodau masnachol mwy hyblyg ac arloesol i ddarpar ddeiliaid, yn enwedig cwmnïau annibynnol, er mwyn gwneud y mwyaf o fforddiadwyedd a chael gwared ar y risgiau i landlordiaid.

### Manteision

- Llai o eiddo gwag
- Mwy o hyder mewn buddsoddwyr
- Lefel uwch o welliannau ac adnewyddiadau i eiddo sy'n ateb y galw lleol
- Amrywiaeth ehangach o ddefnyddiau yng nghanol y dref gan gynnwys ardaloedd preswyl
- Mwy o hyblygrwydd, sy'n annog twf menter a busnes

### Tasgau

1. Cynnal archwiliad a monitro rheolaidd o adeiladau gwag yng nghanol y dref i nodi tirfeddianwyr a buddsoddwyr allweddol gan sefydlu bwriadau perchnogion, lle bo hynny'n bosibl.
2. Cysylltu â'r diwydiant datblygu lle mae gofynion hysbys yn bodoli, gan flaenoriaethu'r angen i gyfeirio buddsoddiad newydd i ganol y dref.
3. Ymchwilio i'r potensial i sefydlu Fforwm Perchnogion Eiddo/Buddsoddwyr/Asiantau Masnachol yn rheolaidd i fonitro materion yn ymwneud ag eiddo, nodi gweithredoedd/cyfleoedd ar gyfer canol y dref, ac ymchwilio i gymhellion i gefnogi ac annog pobl i gymryd eiddo gwag. Yn ogystal â hyn, cynnal deialog gyda pherchnogion eiddo allweddol yng nghanol y dref e.e. canolfannau siopa, er mwyn rheoli risg a newid strwythurol sy'n berthnasol i'w hasedau.

## Prosiect 2: Y Gorchymyn Datblygu Lleol

### Amcan

Mae cynigion yn cael eu harchwilio ar gyfer Gorchymyn Datblygu Lleol yng nghanol tref Caerfyrddin, offeryn polisi cynllunio sy'n hyrwyddo mwy o hyblygrwydd a mwy o gyfleoedd ar gyfer ystod ehangach a chymysgedd o ddefnyddiau yng nghanol y dref. Os caiff ei gymeradwyo, mae'n bwysig bod hyn yn cael ei hyrwyddo i berchnogion eiddo ac asiantau masnachol i gyfleu manteision y Gorchymyn Datblygu Lleol, yn enwedig ar adeg o newid mawr yn y farchnad eiddo.

### Manteision

- Mwy o hyblygrwydd i'r farchnad eiddo
- Cyfeirio buddsoddiad tuag at ardaloedd blaenoriaeth canol y dref
- Cynyddu ymarferoldeb y gwelliannau i adeiladau a defnyddiau cymysg

### Tasgau

1. Hysbysebu a hyrwyddo manteision y Gorchymyn Datblygu Lleol i berchnogion eiddo/landlordiaid/datblygwyr ac asiantau masnachol lleol i annog cyfleoedd i fod yn fwy o hyblyg o ran defnyddio ac ail-bwrpasu asedau, gan gynnwys cyfeirio mentrau cymorth perthnasol y Cyngor lle bo hynny'n briodol.
2. Os oes angen, monitro ac adolygu ffin y Gorchymyn Datblygu Lleol i sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r angen am ganol tref llai o ran maint, a chynnal crynodiad o fuddsoddiad yn yr ardaloedd masnachol craidd.
3. Hyrwyddo'r cyfleoedd ar gyfer defnydd preswyl yng nghanol y dref, yn enwedig wrth gefnogi datblygiadau mwy ymarferol. Gallai hyn gynnwys cyfleoedd i fod yn bartner gyda Gwasanaethau Tai Cyngor Sir Caerfyrddin i ddarparu mwy o eiddo fforddiadwy i'w rhentu.

## Prosiect 3: Cymorth Cyllido

### Amcanion

Ceir eiddo allweddol yng nghanol y dref sy'n cyfrannu at amcanion y prif gynllun adfer ac iechyd ehangach canol y dref, sy'n debygol o fod angen buddsoddiad adfywio wedi'i dargedu trwy ymyrraeth y sector cyhoeddus o ystyried graddfa, arwyddocâd a chymhlethdod posibl yr eiddo. Bydd yn hanfodol i sicrhau bod yr eiddo allweddol hyn, p'un a ydynt yn wag neu'n destun newid mewn amgylchiadau, yn cael eu dwyn yn ôl i ddefnydd buddiol o ystyried eu rhagolygon i ddarparu, o bosibl trwy ailfwriadu, gweithgareddau a defnyddiau newydd a all weithredu fel angorau ac atyniadau i ddenu nifer o ymwelwyr a sicrhau buddsoddiad newydd. Mae cyfle hefyd i dargedu eiddo y mae angen ei wella'n ansoddol er mwyn gwella safon yr amgylchedd adeiledig.

### Manteision

- Ymyrryd mewn eiddo i gyflawni amcanion ar gyfer ardaloedd â blaenoriaeth wedi'u targedu
- Cynyddu ymarferoldeb y gwelliannau i adeiladau a defnyddiau cymysg
- Meithrin hyder buddsoddwyr ac annogy sector preifat i fuddsoddi

### Task

1. Sefydlu rhestr darged o gaffaeliadau strategol a all dynnu cyllid i lawr o Grant Lleoliad Llywodraeth Cymru sydd ar gael ar gyfer eiddo allweddol yng nghanol y dref.
2. Nodi a sefydlu eiddo targed allweddol yng nghanol trefi a pharhau i'w hadolygu'n rheolaidd (sy'n cyd-fynd â gwybodaeth am y farchnad o Brosiect 1 Cipolwg ar y Farchnad Leol a Phrosiect 4 Tir ac Asedau'r Sector Cyhoeddus).
3. Nodi rhestr darged o eiddo y nodwyd bod angen eu gwella'n ansoddol a blaenoriaethu camau gweithredu, gan gynnwys darparu cymorth posibl ar gyfer gwaith adnewyddu a gosod.

## Prosiect 4: Tir ac Asedau'r Sector Cyhoeddus

### Amcanion

Mae rôl tir ac asedau'r sector cyhoeddus yn cynnig cyfleoedd i ymchwilio i fwy o gydleoli a mwy o gydweithio rhwng asedau'r sector cyhoeddus mewn lleoliadau yng nghanol trefi. Mae amcanion y Rhaglen Trawsnewid Trefi a'r pwyslais ar roi canol y dref yn gyntaf yn amlwg yn cefnogi'r amcan hwn, yn enwedig o ystyried presenoldeb cryf y sector cyhoeddus yn lleol a'r cwmpas i ymchwilio i ddarparu gwasanaethau a gweithgareddau newydd o adeiladau canol y dref. Byddai'r dull hwn yn cyfrannu at y gwaith o ddenu nifer fawr o ymwelwyr ochr yn ochr â sicrhau gwell mynediad cymunedol i wasanaethau ac yn cyfrannu at gyrchfan defnydd cymysg.

Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Gaerfyrddin o ystyried ei rôl weinyddol fel y dref sirol, a maint y sector cyhoeddus yn y dref ehangach. Mae cyfleoedd yn bodoli i Gyngor Sir Caerfyrddin, Bwrdd Iechyd Hywel Dda, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (fel ei syniadau cychwynnol ar gyfer ymdeimlad gwell yng nghanol y dref) a Choleg Sir Gâr ymchwilio i fwy o ddarpariaeth gwasanaeth a darpariaeth o adeiladau yng nghanol y dref, gan gynnwys y potensial ar gyfer lle cydweithredol a rennir. Bydd hefyd yn darparu cyfleoedd i sefydliadau'r trydydd sector, ac yn cynnig gobaith realistig ar gyfer ailddefnyddio adeiladau gwag mawr lle mae'r galw masnachol yn debygol o fod yn gyfyngedig.

### Manteision

- Cydleoli gwasanaethau a lle swyddfa
- Dal gafael ar nifer yr ymwelwyr i ganol y dref a'r gwariant

### Tasg

- Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn gweithio'n rhagweithiol gyda'i bartneriaid yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys Ystadau Cymru, i ymchwilio ac annog y sector cyhoeddus, sy'n cynnwys gwasanaethau'r Cyngor ei hun, Bwrdd Iechyd Hywel Dda, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Coleg Sir Gâr a sefydliadau perthnasol eraill i ddefnyddio lleoliadau canol y dref yn well.




## Prosiect 5: Diwygio ardrethi busnes

### Amcan

Mae atebolrwydd ardrethi busnes yn rhwystr i lawer o fusnesau yng nghanol y dref, yn enwedig cwmnïau annibynnol sy'n ystyried symud i adeilad mwy o faint, ond ar y llaw arall, ceir goblygiadau o ran costau i berchnogion eiddo pan fydd yr adeilad yn wag ac yr ystyrir ei addasu. Mae'r gwyliau ardrethi busnes, sy'n flwyddyn o hyd, a roddwyd i'r mwyafrif o fusnesau Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch yn ystod 2021/22 fel rhan o gymorth economaidd COVID-19 yn darparu cyfle i gael seibiant ac anogaeth i fusnes dyfu, tra dylai adolygiad o fesurau hirdymor fod wedi'i gefnogi ochr yn ochr â mentrau i annog twf busnes.

### Manteision

- Costau busnes sy'n gysylltiedig ag eiddo sy'n hybu ac yn annog twf busnesau bach.

### Tasg

- Hyrwyddo newidiadau i'r model rhyddhad ardrethi busnes a'r model trethiant cyffredinol sy'n cefnogi busnesau bach ac annibynnol i dyfu mewn lleoliadau yng nghanol trefi.
- Annog perchnogion eiddo i ymchwilio i addasiad eiddo yng nghanol y dref sy'n cynnig yr effeithlonrwydd ardrethi busnes mwyaf, gan gynnwys dulliau arloesol o leihau atebolrwydd ardrethi gwag a all fod yn rhwystr mawr i ymyrraeth.

# Strategaeth Cymorth Busnes

Elfen graidd o adferiad a thwf canol tref Caerfyrddin yw'r angen i ddiogelu busnesau presennol, ynghyd â rhoi cymorth ac anogaeth i fusnesau lleol ac annibynnol dyfu trwy strategaeth fusnes.

Y strategaeth yw datblygu mwy o gydnerthedd a hyder mewn busnes, ynghyd ag ystod estynedig o fusnesau newydd sydd â'r potensial i ddenu a sbarduno nifer uwch o ymwelwyr. Y nod hefyd yw ysgogi buddion economaidd ehangach i'r gymuned fusnes trwy gynyddu cynhyrchiant, cyflogau uwch a chreu swyddi. Gellir cyflawni hyn trwy ddull amlasiantaethol wedi'i dargedu, ac annog y newid o fod yn fusnesau dros dro ac yn fasnachwyr marchnad i fod yn fusnesau sydd wedi'u lleoli ar y brif stryd fawr.

Cydnabyddir y bydd technoleg yn helpu i adeiladu canol tref y dyfodol, ac mae angen canolbwyntio ar gefnogi iechyd digidol y gymuned fusnes leol wrth osod technoleg glyfar i sicrhau'r buddion mwyaf posibl o arloesedd a gwybodaeth. Bydd gwell seilwaith digidol gyda sgiliau cysylltiedig yn rhoi'r gallu a'r hyder i fusnesau canol tref fanteisio'n llawn ar dechnoleg i wella perfformiad busnes.

## Prosiect 1: Entrepreneuriaeth a chymorth busnes

**Amcan**

Caiff canol tref Caerfyrddin ei nodweddu gan ei amrywiaeth o fusnesau annibynnol, a'r nifer o arbenigwyr sy'n cyfrannu at yr ystod eang o ddewis a gynigir. Maent yn ategu'r manwerthwyr cadwyn cenedlaethol, gan gynyddu'r presenoldeb sy'n gwanhau yng nghanol y dref ac sy'n bygwth rôl ranbarthol y dref.

Er mwyn cynnal a chryfhau rôl siopa'r ganolfan, mae'n bwysig cefnogi twf busnesau annibynnol a chynyddu cyfleoedd ar gyfer menter leol newydd. Mae'r prif gynllun wedi nodi enghreifftiau o dwf busnes annibynnol diweddar, gan gynnwys busnesau lleol amlwg yn manteisio ar unedau mawr yn y prif ganolfannau siopa. Mae hwn yn ddangosydd cadarnhaol o hyder yn y craidd canolog ac mae'n cynnig rhagolygon da ar gyfer ailddefnyddio unedau gwag lle mae'r galw gan fanwerthwyr cenedlaethol yn fwy cyfyngedig. Mae hefyd yn adlewyrchu'r rhagolygon realistig sy'n bodoli ledled canol y dref ar gyfer twf i fusnesau bach, yn amrywio o'r farchnad dan do (ac awyr agored) i ardaloedd mwy traddodiadol fel Ardal yr Hen Dref.

Ar y cyfan, mae hyn yn cyd-fynd yn agos â'r strategaeth eiddo ac mae'n ymwneud â chreu amrywiaeth o ddeiliaid busnes ar draws ystod o sectorau sy'n ychwanegu amrywiaeth ac atyniad i ganol y dref.

I grynhoi, mae'r strategaeth cymorth busnes yn cyflawni sawl pwrpas sy'n ceisio gwneud y canlynol:

- Sefydlu dull seiliedig ar le o ran cefnogi busnesau sy'n adlewyrchu'r anghenion a'r cyfleoedd sy'n benodol i'r dref a chanol y dref
- Annog busnesau newydd sydd â'r potensial i feddiannu ystod o leoliadau lleoedd dros dro, stondinau marchnad neu eiddo masnachol traddodiadol
- Ysbrydoli micro-fusnesau i symud i adeiladau mwy o faint, a thrwy hynny eu cefnogi i wneud defnydd gweithredol o lety yng nghanol y dref
- Cefnogi busnesau i ddod yn fwy cystadleuol gyda mwy o botensial i ddenu ymwelwyr, cynyddu cynhyrchiant a chreu cyflogaeth
- Ysgogi galw lleol i gefnogi buddsoddiad gan y sector cyhoeddus a'r sector preifat e.e. caffaeliadau eiddo strategol, creu lle deori busnesau, hybiau gwaith a rennir a buddsoddi mewn ad-drefnu ac ailbwrpasu eiddo i gyd-fynd â gofynion newydd

**Manteision**

- Cynyddu ymholiadau busnes drwy roi cyngor a sesiynau mentora
- Cynnydd yn nifer y busnesau a swyddi wedi'u diogelu
- Cynnydd yn nifer y busnesau newydd
- Cynnydd yng nghyfradd twf microfusnesau/ busnesau bach
- Creu pecynnau cymorth wedi'u teilwra i annog buddsoddiad mewn sectorau allweddol
- Llai o eiddo gwag

**Tasgau**

1. Gyda sawl asiantaeth yn darparu cymorth i fusnesau o wahanol feintiau ac yn gweithredu ar draws ystod eang o sectorau, mae darparu cymorth busnes sy'n seiliedig ar le yn gofyn am ddull cydgysylltiedig wedi'i dargedu.
2. Dod â phob agwedd ar gymorth busnes i un lle (naill ai'n rhithiol a/neu fel rhan o gyfleuster Hwb canol tref newydd), gan ei gwneud hi'n glir ac yn syml i fusnesau lleol gael gafael ar yr help sydd ei angen arnyn nhw. Rôl tîm Datblygu Economaidd Cyngor Sir Caerfyrddin yw helpu i symleiddio darlun cymhleth o entrepreneuriaeth a chynhyrchion cymorth busnes i entrepreneuriaid a busnesau gan sicrhau darpariaeth aml-asiantaeth gydgysylltiedig. Ymhlith y partneriaid mae'r Cyngor, Busnes Cymru, Ffederasiwn Busnesau Bach, Siambr De Cymru, Canolfan Fusnes a Gweithredu Cymdeithasol, Mentrau Iaith, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Coleg Sir Gâr, ac ati.
3. Hyrwyddo a chyfathrebu ar lefel tref yr ystod o gymorth sydd ar gael a thargedu entrepreneuriaid a busnesau trwy ysgolion a cholegau, grwpiau busnesau a sefydliadau a thargedu'r masnachwyr presennol yng nghanol y dref.
4. Darparu mynediad at linell gymorth, gwefan, a chymorth un i un sy'n canolbwyntio ar y sector, darparu cymorth ac arweiniad am ddim ar unrhyw gam o gylch bywyd busnes yn cynnwys Dechrau busnes; Tyfu busnes; Datblygu sgiliau; Rhwydweithio; Dod o hyd i gyllid; Dod o hyd i eiddo.

## Prosiect 2: Canol tref ddigidol a sgiliau

**Amcanion**

O ystyried y pwysau ar y stryd fawr ac effaith COVID-19, mae'n bwysig bod busnesau'n gallu manteisio i'r eithaf ar dechnoleg ddigidol, yn yr un modd ag y mae archfarchnadoedd a chanolfannau siopa wedi'i wneud ers blynyddoedd. Mae hyn yn rhoi cyfle i fusnesau ddatblygu eu marchnad a chynyddu trosiant yn lleol ac yn fyd-eang wrth barhau i fod yn fusnes wedi'i wreiddio yng nghanol y dref.

Mae iechyd digidol Caerfyrddin wedi dangos mai dim ond 30% o fusnesau canol y dref sy'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol lle mae mwyafrif y defnyddwyr yn 'cymdeithasu' ac y gellir dylanwadu arnynt. Mae iechyd digidol hefyd yn cael ei ddylanwadu gan argaeledd technoleg newydd sy'n bodoli ac sydd eisoes yn cael ei defnyddio yn nhrefi Cymru i helpu busnesau a lleoedd i wneud penderfyniadau gwybodus a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Yr amcan yw buddsoddi mewn seilwaith i gefnogi'r gwaith o greu tref glyfar gyda busnesau'n cael eu cefnogi i wneud y defnydd gorau posibl o dechnoleg ddigidol er mwyn iddynt ddatblygu. Mae hyn yn cynnwys:

- Rhoi rhwydweithiau cysylltedd ac arloesi hynod gyflym, dibynadwy iawn ar waith;
- Darparu'r rhwydwaith cymorth, hyfforddiant ac anogaeth sy'n helpu i greu diwylliant digidol a sgiliau busnes gwell.

**Manteision**

- Cynnydd yn nifer y busnesau canol y dref sy'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol
- Cynnydd yn nifer y bobl sy'n gymwys yn ddigidol, sy'n meddu ar gymwysterau digidol ac sy'n defnyddio technolegau digidol
- Cynnydd yn nifer y busnesau sy'n cydweithio gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a thechnoleg

**Tasgau**

1. Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin fel awdurdod arweiniol ar gyfer Rhaglen Seilwaith Digidol Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn gweithio i sicrhau bod seilwaith a chysylltedd digidol gwibgyswllt, hynod ddibynadwy ar gael i'r dref, yn cynnwys band eang ffeibr llawn a all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit, cyswllt 4G/5G, a rhwydweithiau arloesi'r rhyngrwyd pethau.
2. Parhau i adeiladu Rhwydwaith Arloesi Sir Gaerfyrddin, sef y rhwydwaith 'Rhyngrwyd Pethau' er mwyn i fusnesau, cymunedau, a phartneriaid i fanteisio ar y sylw a ddarperir yn nhref Caerfyrddin.
3. Fel rhan o'r pecyn cymorth busnes, ac ochr yn ochr â mentrau gan gynnwys Cyflymu Cymru i Fusnesau, byddwn yn ymchwilio a thargedu canol y dref gyda Menter Ddigidol trwy gyfuniad o ddigwyddiadau digidol, ymwybyddiaeth, sgiliau a chymorth, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, i ffynnu a chymryd mantais o'r cyfleoedd digidol
4. Mabwysiadu offeryn sy'n edrych ar ddata a mewnwelediad y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer y dref a'i busnesau sy'n darparu data, arbenigedd, gwybodaeth, hyfforddiant a chymorth i'w helpu i gysylltu â'u cynulleidfa, i ddadansoddi pa gynnwys sy'n ymgysylltu â nhw a mesur beth sy'n effeithio ar ganlyniadau busnes.

# Strategaeth Rheoli Lle

Mae canol trefi yn lleoedd sy'n denu cyfuniad amrywiol o bobl - ymwelwyr bob dydd, pobl greadigol, entrepreneuriaid a phobl chwilfrydig fel ei gilydd, ac ni all unrhyw brif gynllun orfodi canol tref ddeniadol, fywiog i fodolaeth, ond fe all greu'r amodau sy'n caniatáu i dref o'r fath dyfu.

Rhaid i ganol tref lewyrchus fod yn lleoliad sydd wedi'i reoli'n dda, lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn gyffrous i fod ynddo. A chan nad yw bellach yn bosibl gwarantu nifer y siopwyr a'r gweithlu lleol yn ystod y dydd, mae'n rhaid i ganol y dref ddod yn gyrchfan mwy ysgogol, cyffrous, cymunedol a diwylliannol yn ystod y dydd a chyda'r nos i wneud y mwyaf o'r apêl i drigolion lleol ac ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn, nawr yn fwy nag erioed o'r blaen.

Mae pwysigrwydd rheoli a hyrwyddo lleoedd yn sylfaenol i gyflawni'r amcan hwn ar lefel leol, ac mae'n cael ei arwain gan Ardal Gwella Busnes Caerfyrddin. Er ei fod yn gymharol newydd, mae cynllun busnes yr Ardal Gwella Busnes yn nodi cyllideb ddrafft o £845,000 dros y pum mlynedd nesaf ar gyfer ystod o fentrau sy'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Gwella proffidioldeb busnes: hyfforddiant pwrpasol - ailgylchu a chasglu gwastraff ar y cyd - cerdyn teyrngarwch - siopwr dirgel;
- Gwella proffil y dref: gwella brandio ac arwyddion - menter "croeso cynnes/warm welcome" - gwefan Ardal Gwella Busnes a chyfeiriadur busnes ar-lein - digwyddiadau a gwyliau o safon uchel;
- Gwella profiad parcio - cymhellion i reoli a chodi tâl parcio - gwobr teyrngarwch - arwyddion a gwybodaeth well - cynllun 'cwrdd a chyfarch';
- Gwella edrychiad y dref - glanhau a chynnal a chadw - defnyddio siopau gwag/tu blaen siopau.

Mae'r prif gynllun hwn yn llwyr gefnogi'r gwaith o gyflawni cynllun busnes yr Ardal Gwella Busnes ac yn amlinellu'r amcanion a'r uchelgeisiau sy'n cyd-fynd â mentrau'r Ardal Gwella Busnes i wella proffil canol y dref, cefnogi busnesau lleol i ffynnu a chynyddu nifer yr ymwelwyr, gwariant, yr amser aros, ac ailadrodd ymweliadau i ganol y dref.  Mae nifer o gamau gweithredu wrthi'n cael eu datblygu.

Ar sail natur yr heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'i rôl ranbarthol, bydd mantais i sicrhau cymorth i weithrediadau/mentrau canol y dref, gan weithio gyda'r Ardal Gwella Busnes i sicrhau cydgysylltu a chyflawni prosiectau (argymhellir fel blaenoriaeth cyflawni).

## Prosiect 1: Diwylliant ac adloniant

### Amcan

Wrth i ganol y dref ganolbwyntio llai ar y siopa a mwy ar y profiad, mae gweithgarwch diwylliannol ac atyniadau yn dod yn bwysicach nag erioed wrth sicrhau bywiogrwydd. Mae angen diogelu cyrchfannau diwylliannol (celfyddydau, treftadaeth, adloniant) gydag apêl eang wedi'i angori yng nghanol y dref. Mae canol tref Caerfyrddin yn cefnogi ystod dda asedau diwylliannol ac adloniant gan gynnwys Oriel Myrddin (cyllid wedi'i sicrhau ar gyfer ei ailddatblygu fel ased arddangosfa genedlaethol), Theatr y Lyric, Archifau Sir Gaerfyrddin (Y Stordy) sydd i'w agor yn fuan yn y llyfrgell, a sinema Vue. Mae'r cyfle i adeiladu'r cynnig diwylliannol eisoes yn bodoli, gan gynnwys y cysylltiad â thwf Yr Egin a chynigion y Brifysgol ar gyfer chwarter diwylliannol. Byddai gan y ddau y potensial i wella'r economi gyda'r nos yng nghanol y dref, gan ganolbwyntio ar Heol y Brenin o ystyried ei pherthynas â defnyddiau cyflenwol.

Mae cwmpas da i adeiladu ar digwyddiadau presennol fel Gŵyl yr Afon, Gŵyl y Gaeaf ac Wythnos Dewi Sant a'u datblygu, ynghyd â hyrwyddo digwyddiadau a gŵyl newydd o safon uchel yng nghanol y dref. Byddai hyn yn gwneud y mwyaf o apêl hanesyddol, ddiwylliannol a Chymreig unigryw y dref fel marchnad hynaf Cymru, ac yn codi ei henw da a'i phroffil fel cyrchfan ddiwylliannol.

### Manteision

- Meithrin enw da yn ddiwylliannol
- Amrywio atyniadau canol y dref
- Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn ystod y dydd a chyda'r nos

### Tasgau

1. Blaenoriaethu'r dasg o lunio a chydlynu calendr y digwyddiadau dan arweiniad yr Ardal Gwella Busnes mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol lleol, i wella digwyddiadau sy'n bodoli eisoes ac archwilio i gyfleoedd i gynnal digwyddiad unigryw newydd er mwyn arddangos a hyrwyddo Caerfyrddin.
2. Cefnogi lleoliadau diwylliannol ac archwilio'r potensial i fusnesau creadigol sy'n gysylltiedig â'r Egin a'r brifysgol i ddatblygu hwb creadigol yng nghanol y dref.

## Prosiect 2: Trafnidiaeth a symud

### Amcan

Mae angen i'r ddibyniaeth ar gerbydau preifat leihau os ydym am fynd i'r afael â heriau'r newid yn yr hinsawdd, a byddai gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus cwbl integredig sy'n cysylltu rheilffyrdd, bysiau a chynlluniau llogi beiciau yn ei gwneud yn hawdd i bobl deithio i'r dref ac o'i chwmpas o gymdogaethau cyfagos. Mae gwella amlder gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus i/o ganol y dref yn y nos yn broblem hysbys sy'n effeithio ar yr economi gyda'r nos, tra bod preswylwyr ac ymwelwyr yn disgwyl i ardaloedd canolog gefnogi mathau cynaliadwy o drafnidiaeth.  Gallai gwell gwasanaethau hefyd annog myfyrwyr prifysgol i ddefnyddio canol y dref yn well.

Mae cymwysterau beicio Caerfyrddin yn cael eu cryfhau yn dilyn rhoi cynllun Llogi Beiciau Brompton ar waith yn yr orsaf fysiau, sy'n darparu cynllun beic plygu amryddawn i gefnogi teithio i'r gwaith, y cartref ac ar drafnidiaeth gyhoeddus. Yn ogystal â hyn, bydd mannau gwefru e-feiciau hefyd yn cael eu gosod ym meysydd parcio Rhodfa Santes Catrin a Heol y Brenin/Heol San Pedr fel rhan o rwydwaith ehangach o welliannau defnyddio beiciau trydan. Mae'r Cyngor Sir hefyd wedi prynu beiciau e-Cargo er mwyn i fusnesau canol y dref eu defnyddio.

Mae taliadau parcio ceir wedi bod yn bryder i fusnesau canol y dref ac mae'n flaenoriaeth graidd i Ardal Gwella Busnes Caerfyrddin. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor Sir wedi cyflwyno cynllun parcio peilot am ddim yn ei feysydd parcio arhosiad byr ar ddydd Mawrth a dydd Iau rhwng 3:30pm a 6pm. Mae refeniw o daliadau parcio ceir yn cefnogi gwelliannau i briffyrdd a gwasanaethau trafnidiaeth yn uniongyrchol er budd canol y dref

### Manteision

- Cynnydd mewn teithiau cerdded a beicio
- Cynnydd yn y defnydd o deithio llesol ar gyfer teithiau busnes

### Tasgau

1. Ymchwilio i gyfleoedd gyda darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus leol i ymestyn amlder gwasanaethau bysiau gyda'r nos, i ddechrau ar sail prawf.
2. Bydd y nod o helpu busnesau lleol gyda datrysiadau logisteg lleol newydd trwy ddefnyddio beiciau E-cargo yn ei gwneud yn ofynnol llunio strategaeth glir i annog busnesau i fabwysiadu'r beiciau fel rhan o'u busnes a goresgyn rhwystrau ymarferol gan gynnwys mannau storio beiciau digonol.
3. Parhau i fonitro effaith taliadau parcio ceir yng nghanol y dref yn ystod y cyfnod adfer yn sgil COVID-19 ac effeithiolrwydd y mentrau parcio am ddim sydd eisoes ar waith.

## Prosiect 3: Adolygiad o dreftadaeth canol y dref

### Amcan

Mae lleoliad treftadaeth unigryw a statws Ardal Gadwraeth ardaloedd mawr o ganol y dref yn sicrhau amgylchedd adeiledig llawn cymeriad, ond yn yr un modd mae'n gofyn am fuddsoddiad sensitif a'r defnydd o bwerau gorfodi i sicrhau bod safon y lle yn cael ei ddiogelu a'i wella. Byddai adolygiad o'r Ardal Gadwraeth yn helpu i nodi meysydd blaenoriaeth, gan gynnwys cwmpas ar gyfer ymyrraeth wedi'i thargedu lle bo angen. Byddai hefyd yn llywio'r potensial ar gyfer canllawiau dylunio (gan gynnwys y parth cyhoeddus a thu blaen siopau) a fyddai'n cefnogi mentrau eraill a amlinellir yn y prif gynllun hwn yn llawn, yn enwedig gwella lleoedd awyr agored i safon uchel a gwella tir ac adeiladau cyhoeddus.

### Manteision

- Gwella safon y lleoliad
- Hyrwyddo buddsoddiad yn yr amgylchedd adeiledig

### Tasgau

1. Cynnal adolygiad o Ardal Gadwraeth canol y dref i nodi meysydd gweithredu, gan gynnwys y potensial am ganllaw dylunio er mwyn llywio datblygiad ffisegol ac adeiladu ar y prosiectau a argymhellir yn y prif gynllun adfer.

# Dull cyflwyno

**Tra bo buddsoddiad mewn prosiectau a ariennir trwy raglenni yn parhau i wneud gwahaniaeth, nododd y prif gynllun fod angen gwneud mwy.**

Mae'r prif gynllun adfer ar gyfer pawb, nid Cyngor Sir Caerfyrddin yn unig, a bydd angen i'r holl randdeiliaid ymrwymo iddo os yw'r dref am sicrhau llwyddiant a ffyniant parhaus i ganol y dref.

Mae'r cynllun newydd hwn yn angenrheidiol i ddarparu llwybr clir at adferiad a thwf canol tref a fydd yn canolbwyntio ar fusnes, pobl a lle, gan ddarparu'r fframwaith ar gyfer blaenoriaethu camau gweithredu dros dair lefel o bwysigrwydd:

1. Ar unwaith - gweithredu cynlluniau parhaol neu dros dro i gael llwyddiannau cyflym, er mwyn manteisio ar gyfleoedd posibl sy'n codi ar ôl diwedd y cyfyngiadau symud ac am weddill 2021
2. Byrdymor - cyflawni o fewn y 24 mis nesaf - prosiectau trawsffurfiol â blaenoriaeth a fydd yn gofyn am waith cynllunio, cyllido, cymeradwyaeth ac a allai achosi rhywfaint o amhariadau wrth eu cyflawni
3. Strategol - Prosiectau a strategaethau arwyddocaol a fydd yn helpu i arwain cyfeiriad canol y drefi i fod yn wydn ac i ymateb i newidiadau hirdymor

Cychwyn/Dichonoldeb/Cynllunio

Gweithredu

## Prosiectau lle

Prosiect 1: Mynedfa maes parcio Heol San Pedr
Prosiect 2: Creu parth i gerddwyr yn Heol y Brenin/Heol y Frenhines
Prosiect 3: Gwella'r chwarter diwylliannol
Prosiect 4: Y Clos Mawr a Maes Nott
Prosiect 5: Mynedfa'r Castell
Prosiect 6: Y lonydd
Prosiect 7: Gerddi Lôn Jackson
Prosiect 8: Heol y Capel, Maes Cambria, Heol Ioan
Prosiect 9: Heol Goch
Prosiect 10: Rhodfa'r Farchnad
Prosiect 11: Heol y Cei
Prosiect 12: Wal y Castell
Prosiect 13: Neuadd y Sir
Prosiect 14: Cysylltu ag Afon Tywi
Prosiect 15: Glan yr Afon

## Prosiectau eiddo


Prosiect 1: Cipolwg ar y Farchnad Leol
Prosiect 2: Gorchymyn Datblygu Lleol
Prosiect 3: Cymorth Cyllido
Prosiect 4: Tir ac Asedau'r Sector Cyhoeddus
Prosiect 5: Diwygio ardrethi busnes

## Prosiectau busnes

Prosiect 1: Entrepreneuriaeth a chymorth busnes
Prosiect 2: Canol tref ddigidol a sgiliau

## Prosiectau rheoli lle

Prosiect 1: Diwylliant ac adloniant
Prosiect 2: Trafnidiaeth a symud
Prosiect 3: Adolygiad o dreftadaeth canol y dref



## Blaenoriaethau

Mae cyfres o brosiectau wedi'u nodi gan y prif gynllun, fodd bynnag, cydnabyddir ei bod yn annhebygol y gellir mynd i'r afael â phopeth ar unwaith a bydd angen canolbwyntio ar y prosiectau pwysicaf sydd â'r effeithiau uchaf. Mae'r holl gamau gweithredu a nodwyd yn cefnogi adferiad a thwf hirdymor. Pan nodir prosiectau mwy cymhleth ond â blaenoriaeth uchel, dylid blaenoriaethu'r gwaith o ddatblygu achosion busnes amlinellol a datblygu dyluniad yn ystod y camau cynnar.

Dylai prosiectau sy'n debygol o gael eu cyllido o ffrydiau cyfalaf neu refeniw presennol neu trwy'r cyfleoedd cyllido uniongyrchol a nodir isod, fod yn flaenoriaeth.

Er mwyn helpu i gyflawni a gyrru'r prif gynllun ymlaen, ceir potensial i roi cymorth ariannol i'r awdurdod lleol gefnogi rôl Gweithrediadau/ Mentrau Canol y Dref newydd gyda goruchwyliaeth strategol i weithio'n llorweddol ar draws y Cyngor a chydag asiantaethau eraill, i rannu atebion a gyrru mentrau cymhleth yn eu blaen i adfer canol y dref.

## Cyllid

Mae'r dirwedd ariannu yng Nghymru yn profi cyfnod o newid sylweddol, sy'n cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru a'r awdurdod lleol mewn ymateb i'r pandemig, a Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y rhaglenni cyllido newydd yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch sut y bydd rhywfaint o'r cyllid yn cael ei ddarparu. Yn sgil hyn, mae angen i'r prif gynllun fod yn ymatebol dros y 12-24 mis nesaf ac mae angen ei alinio â'r rhaglenni hyn sy'n dod i'r amlwg.

### Llywodraeth Cymru - Rhaglen Trawsnewid Trefi

Daw'r rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio bresennol i ben yn 2020/2021 ac mae'n cael ei disodli gan y Rhaglen Trawsnewid Trefi. Mae hwn yn becyn cymorth eang a hyblyg sy'n caniatáu i bartneriaid benderfynu ar y gymysgedd fwyaf priodol o ymyriadau a sut i'w rhoi ar waith yn effeithiol ym mhob tref. Bydd y pecyn cyllido newydd yn cynnig cymorth ar gyfer ystod eang o brosiectau, o ddatblygiadau seilwaith gwyrdd a chreu llwybrau teithio gweithredol i welliannau mewnol ac allanol i berchnogion busnes, gwelliannau i farchnadoedd canol trefi, creu defnyddiau newydd ar gyfer adeiladau gwag, ac ysgogi gweithgarwch er mwyn cefnogi agenda 'trefi digidol'. Ymhlith y rhai sy'n gymwys i wneud cais am gyllid, mae awdurdodau lleol, busnesau canol tref, Ardaloedd Gwella Busnes a Chynghorau Tref a Chymuned.

**Llywodraeth y DU**

- Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi dogfennau prosbectws ym mis Mawrth 2021 ar sut y bydd ardaloedd lleol yng Nghymru yn gallu cyflwyno cynigion ar gyfer y Gronfa Codi'r Gwastad a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (Cronfa Adfywio Cymunedol yn ystod 2021-2022) fel cyfnewidiad uniongyrchol ar gyfer cronfeydd strwythurol yr UE yng Nghymru.
- Cronfa Codi'r Gwastad - yn fach o ran graddfa a daearyddiaeth, yn cynnwys adfywio canol y dref, buddsoddiad lleol mewn cyfleusterau diwylliannol neu uwchraddio seilwaith trafnidiaeth lleol. Bydd yn cael ei chyflawni gan awdurdodau lleol a all gyflwyno un cais am bob Aelod Seneddol y mae ei etholaeth yn gyfan gwbl o fewn eu ffin, a rhoddir blaenoriaeth i gynigion o ardaloedd â blaenoriaeth uwch, yn cynnwys Sir Gaerfyrddin.
- Cronfa Ffyniant Gyffredin - bydd Cronfeydd Strwythurol yr UE yn parhau tan 2023 ac yn cael eu disodli trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin newydd y DU. Bydd y gronfa newydd hon, sy'n cael ei lansio yn 2022, yn gweithredu trwy Lywodraeth y DU, ond i ddechrau, mae Cronfa Adfywio Cymunedol y DU yn cael ei darparu ar gyfer 2021-2022 ac mae'n targedu ardaloedd awdurdodau lleol â blaenoriaeth, yn cynnwys Sir Gaerfyrddin.

**Cyngor Sir Caerfyrddin**

Mewn ymateb i COVID-19, mae'r Cyngor wedi sefydlu adnoddau sylfaenol i gefnogi adferiad a thwf trefi a'r economi ehangach. Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, bydd ystod o fentrau a chymorth busnes newydd ar gael.

**Adfer a chefnogi busnes**

Yn amodol ar gymeradwyaeth ffurfiol, rhagwelir y bydd ffrydiau cyllid adfer a chymorth busnes dan arweiniad y Cyngor Sir ar gael yn 2021.

- Cronfa Adfer i ddiogelu/creu swyddi cynaliadwy o fewn y sectorau twf sydd wedi'u targedu
- Cronfa Cymorth Refeniw i fuddsoddi mewn sgiliau, marchnata ac arallgyfeirio i ddiogelu a datblygu swyddi
- Cronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin - datblygu adeiladau busnesau newydd a busnesau sy'n bodoli eisoes
- Cronfa Datblygu Eiddo Masnachol ar gyfer Trawsnewid - cymorth ariannol ar gyfer codi adeiladau newydd at ddefnydd diwydiannol a masnachol.
- Cronfa Cychwyn Busnes - cymorth cyfalaf ar gyfer creu busnesau newydd a fydd yn arwain yn uniongyrchol at greu swyddi
- Cronfa Tyfu Busnes - cefnogi prosiectau gwariant cyfalaf a gwariant refeniw arbenigol, lle mae swyddi newydd yn cael eu creu

**Marchnata lleol ac arwahanrwydd**

Sicrhawyd cyllid trwy'r rhaglen LEADER i hyrwyddo Sir Gaerfyrddin wledig i dwristiaid, dan arweiniad Tîm Marchnata a Chyfryngau Cyngor Sir Caerfyrddin i ddatblygu straeon a rhesymau dros ymweld â'r lleoliad, y rheini sy'n ymhelaethu ar ein diwylliant, ein hiaith, y cynnyrch lleol ac ati a chyflwyno cynllun gweithredu marchnata (gan gynnwys deunydd hyrwyddo wedi'i frandio, cynnwys cyfryngau cymdeithasol wedi'i baratoi mlaen llaw e.e. testun, delweddau a fideo, pecyn cymorth busnes).

**Adeiladau gwag / defnyddiau dros dro**

Cyllid Llywodraeth Cymru i ddatblygu canllaw arfer da ar gyfer y rhanbarth sy'n galluogi cymunedau i ddatblygu adeiladau gwag yn leoliadau i'w defnyddio dros dro neu i agor fel siopau dros dro, gan ddarparu cyngor ymarferol ar faterion cyfreithiol, ardrethi busnes ac ati. Potensial i ddefnyddio'r cyllid LEADER sy'n £10,000 i wneud gwaith gosod ar yr adeiladau gwag at y diben hwn.

**Economi gylchol - Adferiad cynaliadwy yn dilyn COVID-19**

Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor Sir yn datblygu strategaeth i gefnogi buddsoddiad lleol mewn busnesau a mentrau cylchol; hynny yw, mentrau sy'n cadw pethau mewn defnydd am amser hirach, trwy ailddefnyddio, atgyweirio, ail-gynhyrchu ac adnewyddu, ac wrth wneud hynny, yn helpu i adfywio'r gymuned trwy ychwanegu swyddi a datblygu sgiliau yn lleol. Trwy hyrwyddo hyn yn lleol, bydd y fenter nid yn unig yn cadw arian mewn cylchrediad yn y sir, ond hefyd bydd yn lleihau'r effaith y mae Sir Gaerfyrddin yn ei chael ar yr amgylchedd hefyd. Anogir prosiectau posibl newydd gyda rhanddeiliaid lleol, perchnogion busnesau, entrepreneuriaid, gwirfoddolwyr ac ati.

Mae'r cynllun cyflawni yn nodi amserlenni, yn awgrymu partneriaid cyflawni, ac yn nodi'r camau nesaf. Ymhob achos, byddai angen llunio adolygiad manwl o gwmpas y prosiect a/neu wneud gwaith dylunio manylach i nodi'r costau.

Mae'r cynllun yn cynnwys tri cham, sef y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir, gyda lefel awgrymedig o flaenoriaeth yn seiliedig ar ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r angen i gwblhau rhai tasgau, fel casglu data, er mwyn datblygu prosiectau allweddol.

* Ers cyhoeddi'r Prif Gynllun Adfer, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyhoeddi Pecyn Cymorth Adfywio Canol Trefi er mwyn i awdurdodau lleol gynnal hunanasesiad o'u dulliau a gwella eu gwaith ar ganol trefi. Mae'r Prif Gynllun wedi dilyn egwyddorion y Pecyn Cymorth a bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn mabwysiadu'r egwyddorion hyn yn llawn wrth symud ymlaen.

Owen Davies Consulting
7A Stryd Nevill, Y Fenni
NP7 5AA